

ECO'R WYDDFA

RHIF 316

TACHWEDD 2004

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn:

- Neidio o'r Nefoedd tud. 3
- Miss Corona 1951 (Y Bennod olaf) tud. 16
- Hen Ysgol Brynrefail tud. 9
- Parcio'n Flêr – Be Di'r Ots? tud. 7

Eira cynnar yn Llanrug!



Do, fe ddaeth yr eira yn gynnar i Fro'r Eco eleni. Dyma luniau a dynnwyd ychydig wythnosau yn ôl o'r eira oedd wedi syrthio mewn un rhan arbennig o Lanrug. Y gwir ydi mai eira ffug ydoedd, ac mai ar gyfer y ffilm C'mon Midffild, y trowyd rhannau o'r pentre yn wyn. Bydd y ffilm, a gynhyrchir gan Ffilmiau'r Nant, yn cael ei darlledu am 8.30 ar nos Nadolig eleni.

Gwobr Arbennig

Mae Rachel Ward, o Flwyddyn 13, wedi ennill gwobr arbennig iawn yn ddiweddar yn sgîl ei gwaith di-flino yn ymgyrchu ar ran Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd er cof am ei thad, y diweddar Andrew Ward. Er gwaethaf ei phrofedigaeth, cododd Rachel dros £2000 ac fe'i gwobrwywyd yn Llandudno, pan ddyfarnwyd mai Rachel oedd 'Pencampwr y Pencampwr' – prif wobwr cwmni Scottish Power. Cyflwynwyd tlws gwyrdd arbennig i Rachel – gwerth £500! – ac fe'i cyflwynwyd iddi gan Simon Weston, y cyn-filwr a ddioddefodd anafiadau difrifol yn ystod Rhyfel y Falklands.

Ni ellir meddwl am enillydd mwy haeddiannol. Mae ein hedmygedd ohonot a'n llongyfarchiadau yn fawr iawn.



Tlws Rachel a gyflwynwyd iddi gan Simon Weston.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 316
TACHWEDD 2004**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prj.wales.com

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Gwyn-y-Gwyn (870748)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872497)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872279)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i lawr
golygyddion perthnasol
NOS LUN, 22 TACHWEDD
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 2 RHAGFYR

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Rhagfyr	22 Tachwedd	2 Rhagfyr	Caeathro	Clive James	677438

Annwyl Olygydd,
Cefais fwynhad o ddarllen yn yr
Eco am Efelychiad Marconi.
Fe'm ganwyd i yn Ty'n Pwll,
Fachwen yn mis Hydref 1915.
Yr oedd pylonau Marconi dros y
ffordd ar ochr Cefn Du a phan
fyddai'r gwynt yn gry byddai
sŵn rhuo mawr i'w glywed
ohonynt.

Cafodd brawd i mi, Wil Parry,
ei glwyfo yn Ffrainc adeg y
Rhyfel Byd Cyntaf a'i anfon
drosodd i Clydesbury yn Lloegr.
Cafodd fynd i goleg yno a dysgu
rhywfaint am drydan, ac ar ôl
dod adre aeth ati i adeiladu
'Crystal Set' i ddechrau, ac mi
fyddai wrthi am oriau yn troi a
throsi a *headphones* am ei ben yn
disgwyl codi rhywun yn rhywle.

Yr oedd yn rhaid cael erial ar
gyfer hynny ac aeth i'r coed i
lifio coeden fawr, yna torri twll
mawr yn yr ardd ffyrnt a chriw o
ddynion yn codi y polyn i'w roi
yn y twll. Yna gwifren i bolyn
arall yng nghefn y tŷ a gwifren
trwy dwll yn ffrâm ffenest y
gegin, a'i set ar lintar y ffenest tu
mewn. Fyddai dim iws i mi
wneud sŵn, byddai'n rhaid i
bawb fod yn ddistaw.

Cofiaf iddo fy neffro un
noson wedi codi rhywun yn
America, ond doedd dim ots gen
i, gormod o eisiau cysgu.

Ar ôl y Crystal Set aeth ati i
adeiladu rhai mwy a dwy set o
earphones er mwyn i ddau gael
clywed yr un pryd. Yna daeth
loud speaker ar gael, a phan
fyddai gêm bêl-droed ar ddydd
Sadwrn, byddai yn mynd ag un
loud speaker allan i'r ardd gefn a
chriw o ddynion Fachwen yn
eistedd allan i wrando. Ef oedd y
cynta i wneud radio yn ochr
Fachwen a Dinorwig yn y dau
ddegau.

Ymhen blynnyddoedd, aeth
nai i mi, sef Alwyn Owens, i
goleg ym Manceinion i astudio
Electroneg a daeth yn bennaeth
yn yr adran ym Mhrifysgol
Bangor, lle y bu tan ymddeol
ddwy flynedd yn ôl.

Hefyd, aeth Eilir, fy mab i
Goleg Menai i astudio Radio a
TV. Mae yn gwcithio ar hyn o
bryd ym Mhwllheli mewn siop
deledu. Dechreuodd
ymddiddori mewn CB yn y saith
degau a byddai yn mynd i fyni i
Marconi a Cefn Du gan fod
yno signal da. Byddai yn siarad
hefo llawer o bobl o bob rhan o'r
byd.

Rwyf yn cofio gweld y
pylonau ar ochr Cefn Du yn cael
eu dymchwel ond ddim yn
cofio'r flwyddyn. Byddaf yn cael
pleser o ddarllen yr Eco.
Cofion

Ceridwen Williams
25 Hafan Elan
Llanrug.

CYFARFOD BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

Cynhaliwyd cyfarfod blynnyddol
Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa
Llanrug nos Fercher, Hydref 6ed.
Er yr holl apeliadau am gefnogaeth,
siomedig iawn fu'r ymateb y
flwyddyn hon eto. Y broblem fawr,
wrth gwrs, yw nad oes modd dewis
swyddogion newydd. Erbyn hyn
mae rhai o drefnyddion yr Eco yn
arddel eu swyddi ers ei lansio ym
mis Chwefror 1976 bron i 29
mlynedd yn ôl! Er fod criw o bobl
ifanc byrlymus yn cynnal yr adran
golygyddol, mae angen gwaed
newydd, ffres yn yr adran
drefniadol.

Mae'r trefnyddion i gyd yn
parhau yn eu gwaith a datganodd y
Cadeirydd ei ddiolch iddynt am eu
gwaith, nid yn unig yn ystod y
flwyddyn aeth heibio, ond am y
blynnyddoedd maith. Llafur cariad
diymwad at bapur bro a'r iaith
Gymraeg sydd wedi amlygu ei hun
yn eu ffyddlondeb.

Roedd y Cadeirydd yr un mor
werthfawrogol o lafur a dycnwch y
golygyddion, y gohebwyrr pentref, y
colofnwyr misol, y dosbarthwyr/
gwerthwyr, y timau plygu, yr
hysbysebwyrr ffyddlon, y cyfranwyr
achlysurol, chi'r darllenwyr ac
aelodau o Wasg Gwynedd sy'n
cynhyrchu'r papur yn fisol.

Cafwyd cŵyn gan drefnyddion
ambell bentref am ddiffyg
cefnogaeth i'r plygu. Un noson y
flwyddyn y disgwyllir i bobl
gyflawni'r ddyletswydd yma. Nid
yw hyn yn ormod i'w ofyn! Apelir
yn daer am gefnogaeth i'r
sesiynnau hyn. Mae dyddiad a
lleoliad plygu'r Eco i'w weld yn glir
ar ben tudalen 2 yn fisol.

Cyhoeddodd Miss. Jean Jones,
Trefnydd Bwndelu yr Eco, ei bod
yn dirwyn ei gwasanaeth i ben ym
mis Gorffennaf y flwyddyn nesaf.
Mae hon yn swydd allweddol i
drefniadaeth cynhyrchu'r Eco. Os
oes gan rywun o ddarllenwyr yr
Eco ddiddordeb yn y swydd
cysyllter ag unrhyw un o
olygyddion neu drefnyddion yr
Eco. Mae y rhestr o'r swyddogion
ar yr ail dudalen.

Penderfynwyd mabwysiadu dau
ddatblygiad yn ystod y flwyddyn.

(a) Derbyn a dosbarthu papur i'r
ifanc gan Menter Iaith Gwynedd o
fewn yr Eco bob chwarter.

(b) Ail lcolli ôl-rifynnau o'r Eco a
oedd ym mediant Yr Amgueddfa
Genedlaethol yn y Gilfach Ddu i
Lyfrgell y Sir yn Llanberis. Bydd
rhain ar gael i'r cyhoedd.

Gofynnir yn garedig hefyd i
ddosbarthwyr a gwerthwyr o ddrws
i ddrws adolygu eu sefyllfa
gwerthiant, rhag ofn nad yw rhai
trigolion yn cael ei gynnig.

Cafwyd adroddiad gan rai o'r
trefnyddion. Trafodwyd y
posiblwydd o gael gwefan i'r Eco.
Penderfynwyd hefyd brynu
sganiwr negatif. Cofiwch hefyd fod
camera digidol hawdd ei
ddefnyddio ar gael i'w ddefnyddio
at ddibenion yr Eco. Cysyllter â'r
Trefnydd Ffotograffiacth.

Llys Cerdd
80 Cae Gwyn
Caernarfon

Annwyl ddarllenwyr,

Arholiadau Gorsedd y Beirdd

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol
yn dod i Eryri a'r Cyffiniau y
flwyddyn nesaf, beth am fynd ati
dros fisoedd y gaeaf i baratoi ar
gyfer sefyll arholiadau'r Orsedd, a
thrw y hynny ddod yn aelod o'r
Orsedd a chael cymryd rhan yn ei
seremonïau a'i gorymdeithiau
llwgar?

Cynhelir yr arholiadau ar y
Sadwrn olaf yn Ebrill, a gallwch
ddewis o blith nifer o feysydd i
arbenigo ynddynt: Barddoniaeth,
Cerddoriaeth, Iaith, Rhyddiaith,
ynghyd â meysydd arbennig i
Delynoriaeth, Datgeiniad Cerdd
Dant, ac Uganwyr. Rhaid pasio
dau arholiad yn eich maes
dewisedig cyn cael eich urddo i'r
Wisg Werdd, ond gallwch sefyll y
ddau bapur yr un diwrnod, os
dewiswch. Yna, ymhen blwyddyn
wedyn, cewch sefyll yr arholiad
terfynol i'ch urddo i'r Wisg Las.

Os hoffech fwy o fanylion am yr
arholiadau, cysylltwch â mi cyn
gynted â phosib: Llys Cerdd, 80
Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd
LL55 1LL (01286) 676651 neu
e-bost: wgwyn.lewis@btinternet.
com)

Beth am roi cynnig arni, felly, er
mwyn i chi gael bod yn rhan o
seremonïau Gorsedd y Beirdd yn
yr Eisteddfod Genedlaethol?
Yr eiddoch yn gywir

Dr W. Gwyn Lewis
Trefnydd Arholiadau
Gorsedd y Beirdd

Cais i Ohebwyrr y Pentrefi

Mae gan y Bwrdd
Golygyddol lawer o
luniau a ddefnyddiwyd
yn y papur.
A fyddai modd i chi
drefnu iddynt gael eu
dychwelyd i'w
perchnogion os
gwelwch yn dda.


RHODDION

£10: Mrs Helen Munro, 1
Penrallt, Llanrug; Er cof am
Gwladys Mair Jones, 10
Trefcilian, Waunfawr.

£5: Eirlys Lloyd Jones, 5 Bro
Deiniol, Deiniolen; Mrs
Jennie Angharad Roberts, 2
Ffordd Madog, Brynrefail; Er
cof am fodryb annwyl gan Mrs
Eirlys Jones, Gwynant,
Penisarwaun; Margaret
Williams, 4 Ffordd Deiniol,
Deiniolen; Gan deulu
Rhoslyn, Waunfawr.

£3: Geraint a Cheryl,
Llanberis

Neidio o'r Nefoedd



Eleri a'i phlant, Caryl a Cai, gyda Gavin Carr wedi iddi lanio ar faes awyr Tilstock.

Eleni, fe benderfynodd Eleri Elizabeth Jones o Foduan wneud naid barasiwt. Yma mae hi'n egluro pam.

Bûm yn gweithio fel gofalydd cymuned ym Mhen Llŷn am tua blwyddyn a hanner ond er fy mod yn mwynhau'r gwaith yn angerddol yr oedd gennyf ddyhead am gael helpu pobl oedd yn waelach ac o dan fwy o anfanteision. Pan glywais fod cyfle i'm ymuno gyda thîm arbennig fel cynorthwy-ydd gofaliadau, neidiai amdano a bûm y ddigon lwcus i gael cyfweiliad. Dyna'r naid gyntaf.

Yr oeddwn yn nerfus iawn ar fore'r cyfweiliad ond yr oedd rhyw lais bach yn fy mhen yn dweud: 'Fyddi di'n iawn, sdi.' Yr oeddwn yn berffaith siŵr mai hon oedd y swydd i mi, gan fy mod wedi colli dau daid a fu'n dioddef o ganser. Yn y cyfweiliad llwyddais i ateb bob cwestiwn yn gywir a cheisiais ymlacio. Do, mi ges y swydd, ond yr oedd yn anodd troi cefn ar yr henoed y bûm yn gofalu amdanynt fel gofalydd gyda Chyngor Gwynedd. Disgynnodd ambell ddeigr yn a bu gwasgu llaw. Eraill yn dweud yn ddiffuant iawn, 'Cofia ddwad draw am baned a sgwrs.' Rwy'n dal i alw heibio i rai ohonynt o hyd: mae rhai yn dal yn eu cartrefi a'r lleill mewn cartrefi henoed.

Pan gychwynais ar fy swydd newydd cefais y ffrainc o weithio gyda hogyn 25 oed o Lanberis, hogyn hoffus sydd, er gwaethaf ei anabledd, yn llawn hiwmor. Mae Gavin Carr yn dioddef o'r salwch cas multiple sclerosis. Wrth i'r wythnosau fynd heibio a minnau'n dwad i adnabod Gavin yn well bob dydd, dechreuais ei holi beth fyddai wedi hoffi ei wneud cyn mynd yn sal? Dywedodd y byddai wedi hoffi neidio allan o awyren. Wel, a finnau hefyd, meddwn wrtho.

Yr oedd fy mhen-blwydd yn 30 yn nesáu ac yr oeddwn wedi addo i mi fy hun y byddwn yn gwneud rhywbeth anghyffredin. Meddyliais am gael tatw ond mac arna' i ofn nodwyddau, felly

penderfynais dderbyn her Gavin a mynd am naid barasiwt nodedig, er budd yr M.S. Wedi dweud wrth bawb beth oedd fy mwriad, doedd dim troi'n ôl. Rhai yn gofyn, 'Wyt ti'n gall, dwad?' Lleill yn curo fy nghefn ac yn dweud, 'Go dda ti.' Teimlad braf yw gwybod eich bod am wneud rhywbeth fydd yn rhoi pleser i chi eich hun ac o fudd mawr i gymdeithas fel yr M.S.

Felly dyna'r penderfynnu wedi ei wneud, torri coes neu beidio. Cefais bob cefnogaeth gan fy ngŵr, Lewis, a'r plant, Caryl a Cai. A bu teulu a ffrindiau agos yn gefnogol iawn. Ond roedd cael hyd i noddwyr yn dipyn o waith.

Wedi cysylltu yn gyntaf gyda Chymdeithas yr M.S., rhaid oedd ffonio busnesau lleol ac ysgrifennu llythyrau. Cefais ymateb da gan fusnesau, unigolion a chynghorau tref a chymuned ym Mhen Llŷn a chodwyd swm da drwy bacio neges ar ddydd Sadwrn yn Safeways, Caernarfon: diolch i'r cwmni am ei gefnogaeth.

Dros yr wythnosau y bûm wrthi'n paratoi yr oeddwn yn cadw Gavin yn y pictiwr, ac roedd hynny'n creu diddordeb

ynndo ac yn gwneud iddo deimlo ei fod ef yn rhan o'r fenter. Bu ei deulu a'i gyfeillion yn Llanberis yn gefnogol iawn i mi hefyd.

Diwrnod bythgofiadwy oedd dydd Gwener, Ebrill 2il, pan euthum gyda'r teulu i faes awyr Tilstock ger Yr Amwythig a chael hanner awr o hyfforddiant gan Chris Gilmore cyn mentro i'r awyren. Dringo wedyn 10,000 o droedfeddi uwchben y maes awyr ac yn wir uwchben y cymylau, cyn fy mod i a'r hyfforddwr yn neidio allan i'r gwagle. Cyn i'r parasiwt agor yr oeddwn yn teithio 140 milltir yr awr drwy'r cymylau tua'r ddaear profiad anhygoel a dweud y lleiaf.

Braf oedd gweld y teulu fel smotiau bach du ar y lanfa yn disgwyl amdanaf. Bu'n brofiad gwerth chweil a llwyddais i godi £2,500 tuag at yr M.S. Yr oeddwn wedi addo cyfraniad bach i Gavin, er mwyn iddo allu prynu rhyw gelficyn i wneud bywyd yn haws iddo, a chedwais yr addewid hwnnw hefyd.

Heb syniad Gavin, go brin y byddwn i wedi meddwl am neidio o awyren, felly diolchaf iddo am fy ysgogi i fentro. Mentro ar un diwrnod yn unig wnes i a mwynhau'r her. Y mae pob diwrnod yn her i bobl fel Gavin sydd yn gaeth i'w cadeiriau olwyn, ac yr wyf yn falch fy mod i ac eraill o dîm y Gwasanaeth Gofal Arbennig yn gallu cynnig rhywfaint o gariad a chysur iddynt.

RYGARUG

Mae sesiynau Rygarug wedi ailgychwyn gyda lansiad cynllun newydd cyffrous - 'Prosiect Fideo Rygarug'. Mae'r cynllun yn agored i aelodau Uwchradd ac i aelodau o flynyddoedd 5 a 6. Y nod yw cynhyrchu ffilm fer a thasg yr aelodau yw creu y cymeriadau, lleoliadau a digwyddiadau, paratoi sgript a chynllunio stori-fwrdd. Ar ôl y Nadolig bydd cyfle i rai aelodau gymryd rhannau actio yn y ffilm tra bod eraill yn ymdrin â'r ochr dechnegol - y gwaith camera, sain, gwisgoedd a set. Ar ddiwedd y cwrs bydd tair neu bedair ffilm fer ar DVD ac fe fydd yr aelodau yn mynd ati i drefnu noson arbennig i rieni a chyfeillion ddod i wyllo'r ffilmiau. Yn ogystal â gweithio ar y ffilmiau fe fydd yr aelodau'n cael cyfle i fynd allan ar y bws i ymweld â chwmnïau teledu lleol.

Os hoffech fwy o fanylion am holl weithgareddau Rygarug cysylltwch â'r trefnydd, Audra Roberts ar (01286) 675766.

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



**(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)**



TAFARN BRYNGWNA Caeathro

Croeso mawr i bawb i'r
'Bryngwna'
yng nghanol pentref Caeathro.
Ic c'ir bwyd cartref ac
amrywiaeth o ddiodydd
traddodiadol, i gyd mewn
awyrgylch cartrefol mewn tafarn
bentref, yng nghwmni Gareth
a Sioned Bowen, y tafarnwyr
newydd.

Glinio dydd Sul a byrbrydau ar gael

**Ffoniwch (01286) 674568
i gadw bwrdd neu archebu
ymlaen llaw**

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Ancuryn Jones a'r staff

O SIAMBAR SELWYN

Be sy'n gwneud cymeriad? Wel, mae nifer o nodweddion. Mae'n bur debyg y gŵyr pob un ohonom am gymeriad go arbennig, a hynny am wahanol resymau. Mae 'na rai yn gymeriadau tawel a swil, eraill yn swnllyd, parablus a chegog. Ambell un yn nerfus a phwylllog, tra mae eraill yn llawn hyder. Mae ymddangosiad ambell un yn ei wneud o'n unigryw. Rydan ni'n hoff iawn o ambell gymeriad, ac yn casáu eraill. Yn bersonol fedra i ddim cymryd at berson oriog, neu berson cenfigennus. Fedrwrch chi ddim trystio person oriog, a fedar person cenfigennus ddim cuddio ei deimladau tuag at rai.

Wrth lunio pwt o gwr ar GYMERIADAU, fe ddaethum i'r canlyniad mai y prif nodweddion o bosib sy'n gwneud cymeriad ydi - ffraethineb un a diniweidrwydd un.

Mae plant yn naturiol yn gymeriadau. Mae babanod hyd yn oed yn gwneud pethau cofiadwy. Mae diniweidrwydd plentyn yn ei arwain o i ddweud rhywbeth ffraeth a doniol yn aml. Sawl Nain a Thaid sydd wedi dweud: 'O! mae o/hi yn gymeriad bach yn barod,' a hynny cyn i'r baban fentro o garchar ei grud.

Dwi'n cofio Euron yn dweud adnod wrth Mr Mathews, y Gweinidog, yn capel Bethel sawl blwyddyn yn ôl, sef,

'Gogoniant y goruffar i Dduw, ac ar y ddaear' ayyb. Ymateb Mr Mathews oedd, 'Da 'ngwas i, yn uwch i bawb dy glywed ti,' gan ychwanegu, 'Pwy ddysgodd honna iti - dy dad?'

Enghraifft wych o ddiniwicdrwydd Euron a ffraethineb Mr Mathews.

Robin Wyn ofynnodd i mi pan oeddwn i'n brifathro yn Rhiwlas,

'Be 'di gair Cymraeg am sosej, syr?'

'Wel, selsig,' meddwn innau.

'Dew,' medda Anwen o gefn y dosbarth, 'oni'n meddwl mae tîm ffwtbol yn Sgotland oedd selsig!'

Do, mi ges i'r fraint o nabod sawl cymeriad, fel y Prifardd Rolant o Fôn; fy hen gyfaill Alun Pierce, Tremadog; Pete,

yr hen fwngral o gi a fu mor ffyddlon i mi am flynyddoedd ym Methel; John, ia John Cefn Bach, y bûm i'n sôn am ei ddiniweidrwydd yn y golofn hon rai blynyddoedd yn ôl bellach, a sawl un arall. Gwahanol math o gymeriadau sy'n cyfoethogi bywyd un.

Mae gen i ddiddordeb wedi bod erioed mewn cymeriadau o bêl-droedwyr, a wir dyna pam y dechreuais i lunio'r ysgrif hon. Rydw i'n cyfeirio atyn nhw yn y sgwrs ar gymeriadau, rhai fel Bruce Grobbelaar, Dixie Dean, Billy Meredith a Vinnie Jones. Ches i erioed y fraint o gyfarfod yr un ohonyn nhw, ond mae 'na hanes diddorol i bob un. Do mi ges i sgwrs â Dixie Dean.

Diwedd y mis diwetha, bu farw y mwyaf lliwgar ohonyn nhw, cyn belled ag roedd ffraethineb yn y cwestiwn. Oedd, roedd Brian Clough yn gymeriad. Roedd o'n enwog am ei ddywediadau bachog fel, 'I'm a bighead not a figure head.'

Roedd o'n un o wyth o blant, ac yn gyfarwydd â thlodi a disgyblaeth ar yr aelwyd. Ei fam fel brenhines, ac yn cadw'r tŷ fel palas. Mynd i'r eglwys bob Sul a dim chwarae. Doedd 'na ddim teledu ar yr aelwyd, ac fe gafodd ei ddwyn i fyny yn sŵn radio, piano a gramaffon. Mae Clough yn cyfadde mai tipyn o dwpsyn oedd o yn yr ysgol, ac fe adawodd yn bymtheg oed i weithio mewn ffatri fel prentis o ffitar.

Un o'i atgofion ydi gweld ei fam yn manglo dillad, ac mae'r mangl hwnnw wedi cael lle

parchus yn ei gartre dros y blynyddoedd.

'Bob tro y bydda i yn teimlo'n flin ac yn anniddig,' meddai, 'Mae edrych ar y y mangl yn dwyn i gof i mi ddyddiau fy mhentyndod, a'r fagwraeth a gefais ar aelwyd gartrefol, er gwaetha'r tlodi.' Roedd ei dad yn gorfod mynd allan i'r ardd i smocio ei Woodbines.

Yn rhyfedd iawn, roedd gan Clough fwy o ddiddordeb mewn criced na pêl-droed pan oedd o'n blentyn, a Len Hutton oedd ei arwr. Dwi ddim am sôn am ei gampau pêl-droed o, dim ond cyfeirio at y ffaith mai un o hogia gogledd-ddwyrain Lloegr oedd o, lle a fu'n fagwrfa i rai fel Jack a Bobbie Charlton, Jackie Milburn, Gazza, Brian Robson ac Alan Shearer.

Fe sgoriodd o 267 o goliau mewn 296 o gemau. Bu'n chwarae i ddau dîm, sef Middlesborough a Sunderland, ac fe gafodd ddau gap i Loegr, cyn iddo gael ei anafu, ac yntau ddim ond yn 30 oed.

Fe gofir amdano am ei ddywediadau ffraeth, dywediadau a oedd yn dod yn onest o'i galon. Fedrwrch chi ddim dweud fod Clough yn oriog, ac yn sicr doedd o ddim yn genfigennus o'r un enaid byw. Roedd o'n dweud ei feddwl yn blaen, ac eto yn y bon roedd ganddo galon feddal a maddeugar.

'Dwi ofn lot o bethau,' meddai. 'Ofn hedfan, ofn bod allan o waith, - ond yr ofn mwy ydi ofn bod yn fethiant.' Dau arwr mawr ganddo oedd Frank Sinatra a Mohamed Ali. Pan gafodd y cyfle i gyfarfod â Mohamed Ali dywedodd,

'Ddim yn aml rydw i'n cael y cyfle i gyfarfod â rhywun sydd a mwy o dalent ganddo yn ei faes ei hun na sy' gen i yn fy maes arbennig i.'

Ond mi roedd o'n hunan froliwr arbennig.

Roedd o'n gredwr cry mewn chwarae pêl-droed ar y llawr.

'Petai'r Bod Mawr wedi bwriadu i chi chwarae pêl-

droed yn yr awyr, mi fyddai wedi trefnu i laswellt dyfu ar y cymylau,' meddai.

Fe gafodd o gynnig i reoli tîm Cymru, ond doedd Notts Forest ddim yn fodlon. Clough yn datgan ar y pryd,

'Fedra i ddim rhoi *team talk* yn Gymraeg iddyn nhw, ond mi ddof i Borthcawl ar fy ngwyliau, a dwi wedi prynu recordiau Harry Secombe yn barod.'

Fe gofia dilynwyd y bêl gron am helynt Roy Keane (Man U) pan gafodd ei hel adre o gwpan y byd. Rhywun yn gofyn i Clough beth fydda fo wedi ei wneud,

'O, mi fyddwn i wedi ei hel o adre yn sicr,' meddai 'ond mi fyddwn i wedi ei saethu fo gynta.'

Dyma'r stori ora amdano gen i. Clough a'i wraig yn gorwedd yn y gwely a hithau'n cwyno,

'God, your feet are cold!' Ateb Clough oedd,

'Look here, darling, you can call me Brian in bed.'

Brian Clough, cymeriad ffraeth, lliwgar a phenderfynol. Yn anffodus, does 'na fawr o gymeriadau tebyg ar ôl yn y byd pêl-droed heddiw. Yn sicr mi roedd y gêm yn dlotach ar ôl i'r gŵr mewn Jersi werdd diflannu o'r maes.

Heddwch i'w lwch.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMYAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLYNVDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORGHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

CLWB ERYRI

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod cyntaf Tymor 2004-2005 gan y Llywydd newydd, Ralph Jones, Llanberis. Croesawyd hefyd dau aelod newydd, sef Gwyndaf Hughes, Llanrug a Gareth Jones, Llanberis.

Cyfeiriwyd at waeledd Mr John Roberts Williams a threfnwyd i'r Llywydd a'r Ysgrifennydd gyfleu dymuniadau gorau'r aelodau iddo yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlwyd hefyd â theulu'r diweddar Selyf Hughes, a oedd yn aelod ffyddlon o'r Clwb o 1976 hyd 1997.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Frank Green am drefnu'r daith ardderchog ym mis Mehefin i Abaty Llanegwestl, Plas Bodidris, Llandegla, Llanarmon yn Ial, Licswm ac Ysgeifiog. Trafodwyd hefyd y trefniadau ar gyfer dathlu hanner canmlwyddiant Clwb Eryri ym mis Hydref 2005.

Bardd y noson oedd John Huw Hughes a chafwyd, yn ei eiriau ei hun, dwy delyneg o'r safon uchaf bosib ganddo!

Gan ei fod yn canu fel cos gyda'r Côr y Mil o Leisiau yn y Neuadd Albert yn Llundain nid oedd yn bosib i'r Is-Lywydd, Dafydd Ellis, gyflawni ei ddyletswydd o gyflwyno siaradwr y noson, Ralph Jones, y Llywydd. Daeth Llywydd y llynedd yn barod iawn i sefyll yn y bwlch a gwnaeth Geraint Elis waith ardderchog wrth gyflwyno'r siaradwr.

Pwrpas Ralph oedd agor cil y drws ar ryfeddodau byd natur a gwnaeth hynny yn gelfydd iawn

drwy edrych ar y modd y mae gwyfyn sy'n hedfan gyda'r hwyr yn osgoi ei elyn - yr ystlum - ac felly gallu'n para'n fyw i genhedlu. Dyma enghraifft dda iawn o brydferthwch a symylrwydd peirianwaith naturiol, sydd hefyd yn dangos cywreinrwydd rhyfeddol byd natur. Cyfeiriodd Ralph at waith y gwyddonydd Roeder ym maes mesur gweithgarwch celloedd y gwyfyn. Eglurodd yn fanwl sut yr oedd y gwyfyn yn osgoi'r ystlym trwy glywed ac ymateb i wich ultrasonig. Cafwyd trafodaeth ddifyr iawn o'r llawr gyda'r aelodau yn falch fod Ralph wedi mynd a'r Clwb i faes mor newydd ac i fyd cyfriniol natur a'i chyfrinachau.

Diolchwyd i'r siaradwr gan Gwyn Hefin Jones a chyhoeddodd y Llywydd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Wener, Tachwedd 5, pryd yr anerchir gan John Huw Hughes gyda Emyr Williams yn y gadair.

Cymdeithas Cymru-Ariannin

Nos Fercher, 24 Tachwedd, yn Ystafell Gymunedol Llyfrgell Caernarfon am 7.30pm cyhelir darlith gyhoeddus: 'Yr Arwr Anhysbys: Lewis Jones o'r Wladfa Gymreig' gan Dafydd Tudur (Prifysgol Cymru, Bangor) i gofio canmlwyddiant marw Lewis Jones, un o brif sylfaenwyr y Wladfa ym Mhatagonia. Trefnir gan Gymdeithas Cymru-Ariannin gyda chefnogachth yr Academi Gymreig.

UN FUNUD FACH

TEGANAU

Dafydd Iwan sydd wedi mynegi'r peth orau yn un o'i ganeuon enwocaf. A phe medrwn ganu, byddwn yn defnyddio'r un funud fach yma i ganu'r gân honno i chi. Mae'r gân, gwaetha'r modd, yn fwy perthnasol eleni nag y bu hi ers tro.

Mewn siop yng Nghaernarfon y dydd o'r blaen y sylwais ar y teganau diweddaraf. Nid y Turtles na'r Power Rangers na'r Thunderbirds a ddenodd fy sylw oddi ar y silffoedd, ond y milwyr bach a mawr efo'u tanciau a'u gynnu a'u bomiau. Dyma'r teganau poblogaidd eleni mae'n debyg. Ac yn oes y teganau electronig ceir botymau bach ar y tanciau a'r bomiau er mwyn i'r plant fwynhau swm a lliw y ffrwydro a'r tanio. Tydi'n plant bach ni'n ffodus!

Fu teganau rhyfel ddim yn ffasiynol ers rhai blyneddodedd: nid milwyr a thanciau beth bynnag. Cafwyd faint fynir o filwyr ffantasi ac ymladdwyr y gofod, ond cymharol ychydig o filwyr 'go iawn'. Mae Action Man wedi gorfod arallgyfeirio ers blyneddodedd i fyd antur yn hytrach na'r byd milwrol. Fu teganau milwrol ddim yn gwbl dderbyniol ers tro: fuo nhw ddim yn 'PC', ddim yn 'wleidyddol gywir'.

Ond mwya sydyn newidiodd y

cyfan, ac mae'r pethau yma yn 'PC' unwaith eto. Ac yn yr achos hwn mae'r term yn gwbl addas. Beth sy'n fwy 'gwleidyddol gywir' heddiw na gwn a thanc a bom? Byth ers Rhyfel y Gwlff mae'r diwydiant gemau fideo wedi manteisio ar y cyfle i droi'r ymladd yn ddifyrwch, a dyma'r diwydiant teganau yn gwneud yr un peth eto â ninnau yng nghanol rhyfel waedlyd arall. Ac mae'r gwleidyddion yn deall yn iawn y bydd rhieni a theidiau a neiniau yn llai tebygol o godi llais yn erbyn eu rhyfeloedd hwy tra bydd eu plant bach yn chwarae'n ddiddig efo'u milwyr a'u tanciau plastig.

Nid dadlau ydw i bod milwyr plastig a bomiau cogio yn troi plant bach yn bobl beryglus a threisgar. Mi chwaraeais ddigon efo pethau felly fy hun; a hyd y gwn i, dwi ddim yn berson gorryfelgar. Ond mae'n bosibl y bydd poblogrwydd newydd y teganau hyn yn gwneud i'n plant bach arfer yn fuan iawn â'r syniad bod arfau rhyfel yn dderbyniol ac yn dda ac yn dipyn o sbort. A thra bo plant bach eraill a'u rhieni yn dal i gael eu lladd yn rhyfeloedd ein cyfnod ni, fedr hynny ddim bod yn beth da.

Ac awn ninnau i'r siopau y Nadolig hwn

I brynu y tanciau, i brynu y gwn?

JOHN PRITCHARD



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Gaernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.G. mewn cymhorthfa, ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Gaernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williams@parliament.uk

Y Sgwâr Llanrug

Grefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudoli: 07778 127394

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

CHWILOTA

MISS KELLOG: CYFANSODDWRAIG



Cafwyd gwybodaeth gynhwysfawr am hanes yr eneth fach o'r Waunfawr a ymfudodd i'r America. Mae fy nyled unwaith yn rhagor i Arvon Roberts o Bwllheli, sy'n arbenigwr ar gysylltiadau Cymreig â'r America. Ef hefyd a fenthyciodd i mi y llun a welir ar y dudalen hon o Frances Williams, a ymddangosodd ar dudalen flaen *Yr Enfys* yn 1962. Fel yr adroddwyd yn rhifyn Hydref o'r *Eco*, deuai ei thad, Richard Williams o Ben y Graig, Waunfawr, ond bu farw yn fuan wedi i'r teulu gyrraedd America. Ail-briododd ei mam â Richard Wright.



Cafodd Frances ei haddysgu yn ysgolion Seattle, Washington cyn symud yn ddiweddarach i Efrog Newydd ar ôl derbyn ysgoloriaeth gerddorol yn Ysgol Raddedig Juilliard.

Mewn amser, priododd hithau ag Eric Davies, brodor o'r Stryd Newydd, Caernarfon, a oedd hefyd wedi mudo i'r America, ac yn swyddog cyfrifol gyda chwmni yswiriant y Metropolitan Life yn Efrog Newydd.

Felly, yn union fel y mis diwethaf, dyma gais y tro hwn am i unrhyw un o berthnasau Eric Davies gysylltu â mi er mwyn ychwanegu at hanes y teulu hwn.

Dilynodd Frances yrfa gerddorol yn ninas Efrog Newydd. Roedd yn aelod o Gymdeithas Cyfansoddwyr. Awduron a Chyhoddwyr Americanaidd, yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr Glwb Cerddorion Efrog Newydd ac yn aelod o Gymdeithas Genedlaethol Cyfansoddwyr ac Arweinyddion Americanaidd.

Yn naturiol, roedd galw mawr arni i weithredu fel beirniad eisteddfodau led-led America, ond yn fwyaf arbennig fel arweinydd cymanfaedd canu o arfordir y gorllewin i arfordir y dwyrain.

Yn 1954 fe'i hanrhyddedwyd gan ei chyhoeddwr, Harold Flamner Inc., Efrog Newydd, pan gafodd wahoddiad ganddynt i dreulio cyfnod yn gyfansoddwraig wâdd y Gyngres Genedlaethol Addysgwyr Cerddorol a oedd yn cyfarfod yn Chicago ar y pryd. Yn ystod y cyfnod hwn daeth dros 12,000 o addysgwyr cerddorol i wrando arni.

Un o'i chyfansoddiadau enwocaf yw 'Let there be music' a gyfansoddodd yn 1953, sef darn ar gyfer lleisiau cymysg. Eraill o'i chyfansoddiadau cerddorol oedd 'High over the Mountains', 'The Lord Reigneth', 'The Song my heart will sing', 'Step lightly over the hollows', a 'To the Dawn'.

Cyfansoddwyd yr emyn-dôn 'Frances' er cof amdani gan Lyn Harry, sylfaenydd Côr Meibion Cymry Llundain a chyn arweinydd Côr Orpheus Morriston. Bu yntau'n byw ac yn gweithio am gyfnod yn Ontario, Canada. Mae'r emyn-dôn wedi ei chynnwys yn Netholiad Cymanfa Ganu Gogledd America.

Ymwelodd Frances Williams Davies â Chymru yn 1954 - ac yr oedd yn bresennol mewn priodas cyfnither iddi sydd bellach yn byw ym Methel. Mae ganddi ddwy gyfnither arall a dau gefinder yn byw yn Lerpwl, Deiniolen a Berthesda. Credir iddi ymweld â Chymru yn 1950 hefyd, a chael arwain cymanfa yn y Waunfawr y pryd hwnnw. Tybed oes rhywun all gadarnhau'r ffaith?

Un o'r troeon olaf iddi arwain yn America oedd

Cymanfa Ganu Genedlaethol Gogledd America a gynhaliwyd yn Chicago yn 1972. Bu hithau farw saith mlynedd yn ddiweddarach, yn 1979.

Derbyniais ddau adroddiad arall ynglŷn â 'Miss Kellog'. Hoffwn gael cadarnhâd ynglŷn â'i mam. Yn ôl un adroddiad, ei henw oedd Katherine Owen, genedigol o Gwm y Glo. Mae adroddiad arall yn nodi mai brodor o Allt Coed Mawr, rhwng y Waunfawr a Rhosgadfan, ydoedd. Bu farw yn America ar 26ain o Ionawr 1964.

Gyda diolch hefyd i Mrs Mair Williams o Gwm y Glo am wybodaeth ynglŷn â'r cysylltiadau gyda Wardner. Mwy am hynny yn un o'r rhifynnau nesaf.

Stamp Post Cynnar - a chynnal bywoliaeth Llanberis Mae'n rhaid i mi gyfaddef mai ychydig iawn o ddiddordeb fu gen i erioed mewn casglu stampiau, ond pan ddaeth Iwan Roberts o Lanrug a chopi o gylchlythyr Cymdeithas Ffilatelig Cymru imi, fe fu'n rhaid talu sylw. Yn rhifyn Medi eleni mae erthygl fer yn Saesneg yn sôn am ocsiwn stampiau a phetheuach post a gynhaliwyd yn gynharach ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog. Yn yr ocsiwn, prynodd awdur yr erthygl amlen a llythyr dyddiedig 1732, wedi ei anfon o Lanberis i Lundain. Y stamp ar yr amlen oedd o ddiddordeb i'r casglwr, gan mai hwn, yn ei farn ef, yw'r stamp cynharaf un o Gaernarfon; ond cynnwys y llythyr sydd o ddiddordeb i mi.

Mae'r llythyr yn sôn am weithredoedd tiroedd ym mhlwyf Llanrug y bwriedid eu gwerthu er mwyn cynnal bywoliaeth eglwysig Llanberis. Mae'r tiroedd yn cael eu henwi, sef Cae coch, Dryll Nicholas, Cae newydd y lleiniau, Cae'r llwyn, Cae bach, Bryniau'r Twrch a Nant bach. Enwir hefyd rai o'r tiroedd cysylltiol, sef Tyddyn gwag, Mecs y Pwll, Tir y Cribwr a chomin y Rhos Rug. Wrth gwrs, mae'r mwyafrif o'r enwau hyn wedi diflannu erbyn heddiw.

Am flynyddoedd, un rheithor oedd yn gwasanaethu plwyfi Llanrug a Llanberis. Y Parch Peter Bailey Williams, o bosibl, oedd yr enwocaf ohonynt, a choffeir ei enw yn y cae enfawr tu cefn i hen efail Llanrug ar groeslon Glanmoclyn - Parc Beili (Parc Bailey yn llythrennol gywir). Ic, hwn oedd cae pêl-droed Ysgol Brynrefail pan sedfydlwyd yr ysgol yn Llanrug. Cof da am y cerdded yr holl ffordd yno i gael cwta hanner awr o gêm cyn cerdded yr holl ffordd yn ôl i'r ysgol mewn da o bryd i gychwyn y wers ddilynol! Sut tybed y byddai rheolau Iechyd a Diogelwch yn delio â'r fath fudo

corfforol heddiw?

Ond does dim sôn am Barc Beili yn y llythyr hwn, wrth gwrs, gan fod hyn chwedeg mlynedd cyn i Peter Bailey gyrraedd Llanrug. Mae lle i gredu felly, mae rhywle yng nghyffiniau Glanmoelyn yr oedd y tiroedd hyn. Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at awdur yr erthygl Saesneg (sy'n byw yn Bristol) yn gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r llythyr, a bydd angen chwilita manwl ymhlith dogfennau'r Archifdy i geisio darganfod mwy am y tiroedd a'u perchnogion. Siawns na chawn beth gwybodaeth erbyn rhifyn y Nadolig!

Llun Cwmni o Weithwyr

Er i nifer gysylltu ar y ffôn, doedd neb yn medru bod yn hollol bendant ble na phwy oedd yn y llun a ymddangosodd y mis diwethaf. Roedd un yn eithaf sicr mai gweithwyr Ffatri Manton, Caernarfon a ddangosir, a hynny tua'r 1950'au cynnar. Ond does dim sicrwydd pendant. Felly, apêl unwaith eto ar i chwi ail-astudio'r llun yn fanwl rhag ofn fod wyneb cyfarwydd ynddo.

Dyna gau pen y mwdwl am y mis, ond cofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu ymholiad am hanes lleol bro'r *Eco* i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon, (Ffôn 01286 673515)



MANTELL
GWYNEDD

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups


Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:

- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626
neu 01341 422575
ymholiadau@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com

Rhif Elusen 1068851
Rhif Cwmni 3420271





**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Goed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



Ar Ben Arall y Lein

Dyna dymor! Eogiaid ym mhob man. Pawb, wel pawb bron, heblaw fi yn dal! Dyma'r tymor gorau ers 12 mlynedd, be yw'r rhesymau tybed? Rwyf wedi egluro nifer o weithiau, wel, mwy na nifer o weithiau, fod eisiau cynnal cynllun stocio er mwyn rhoi cyfle i'r Seiont ddod at ei hun ar ôl yr holl broblemau - rhoddais fraslun o rhain mis diwethaf. Mae wedi bod yn tipyn o frwydyr i gael rhai o swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd i dderbyn hyn, ond yn 1998 fe ganiatawyd i ni fagu tua 18,000 o cogiaid bychain a'u rhyddhau i Afon Peris ac uwchben y Rhaeadr Mawr yn ystod Mehefin 1999. Mae'n cymryd cylch o bum mlynedd i weld a yw hyn wedi bod yn llwyddianus ac eleni oedd y flwyddyn dyngedfennol. A dyma ni, ar ôl helfa o ond 11 eog yn 2003, eleni mae'r cyfanswm yn agosau at 150. Dyma'r tro cyntaf erioed imi gofio tocynnau diwrnod ac wythnosol i ymwelwyr yn cael eu gwerthu i gyd.

Buaswn yn meddwl y buasai Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi rhyw ychydig o glod iddynt ei hunain, gan mai nhw ei hunain sy'n casglu'r grawn ac yn cymeradwyo'r cynllun a'r gwaith. Ond nid fel yna mae pethau, yn anffodus. Y rheswm am y gwelliannau medda nhw yw, wel tywydd mawr yn rhwystro rhwydi gorllewin Iwerddon rhag gweithio. Mae'n sicr fod y gwirionedd am y gwelliant yn bodoli oherwydd

cymysgedd o stocio a dim rhwydo. Tywydd mawr eto yn ystod 2005 amdani felly.

Rhag i bawb ddechrau clodfori gormod fod stocio yn gweithio, fe ddaeth yr Asiantaeth a'r cynllun i ben yn 2001, ond mae yn aildechrau Rhagfyr eleni, felly efallai y bydd dwy flynedd eto o fraster ac wedyn dwy o newyn - cawn weld.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r gymdeithas wedi bod yn ffodus iawn o fod wedi medru manteision ar wahanol ffynnonellau ariannol i ddatblygu cyfleon pysgota ar ein dyfroedd. Mae newydd da eto wedi ei dderbyn, fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cael clywed bod eu cynllun ardderchog sef Cynllun Pysgodfeydd Cynaliadwy i gario 'mlaen am rai blynyddoedd eto. Cawn edrych ymlaen felly i ddal ati i wella isadeiledd pysgota'r ardal.

I rai sydd yn cymryd sylw, beth am y tacluso sydd wedi ei wneud ger Pont Penllyn, mae'r gwaith cynnal yma yn cael ei gario allan gan Menter Fachwen - gwaith ardderchog.

I'r rhai sy'n awyddus i wybod beth yw'r cynnydd gyda Melin y Cim, mae'r broblem olaf wedi ei goresgyn, sef sadio'r waliau wedi gorffen. Felly rwyf wedi fy sicrhau y bydd y gwaith wedi gorffen erbyn diwedd Ionawr 2005. Pwy fydd y cyntaf i aros yno tybed!

HUW P. HUGHES

Parcio'n Flêr - Be Di'r Ots?

Rydw i wedi cyrraedd yr oed lle dwi'n cicio tros y tresi braidd a hynny heb boeni na cholli cwsg. Yr haf yma roeddwn yn sefyll hefo ffrind imi mewn ciw yn sgwrsio ac felly doeddwn i ddim yn ymwybodol iawn o beth oedd yn digwydd o'm cwmpas, hyd nes y gwthiodd rhyw ddynes yn hŷ o'm blaen hefo'i throli llawn. (Flynyddoedd yn ôl ni fuaswn wedi yngan gair, ond ddim mwyach - digon ydi digon!)

'Ecsgiw mi, but I was in this ciw before you...' ac ychwanegais '...if you look at the notice up there it says 'No more than nine items'.'

Edrychodd y ddynes i fyny gan ebychu edrych ar gynhwysion ei throli a chymryd andros o wynt o'i hymysgaroedd, troi hefo'i throli gan frysio i chwilio am giw arall... y tro diwethaf imi ei gweld oedd yn sefyll ym mhen pellaf ciw arall a golwg y fall arni. Wel, be' di'r dywediad 'dwch? O ia! - y blaenaf a fyddant olaf... Mae hunan-hyder yn beth braf on dydi, pan rydach chi'n gwybod ych bod chi'n llygad eich lle.

Chi ddarllenwyr. Sut rai ydach chi am barcio car? Faint o farciau ar raddfa 1-10 fasach chi'n roi i chi'ch hunan? Wel, dwi rioed wedi medru parcio yn union rhwng y ddwy lein felen 'na yn y maes parcio-aml-lawr a pheidiwch a sôn am 'rifysio'! Mi fydda i'n parcio'n flêr rwan yn amlach na pheidio a theimlad braf ydio hefyd i adal y car ar chwâl a dychmygu'r bobol yn twt-twtio wrth sylwi ar rhyw 'idiot' wedi parcio rhywsut-rhywsut (yn union fel y baswn i wedi ymatab flwyddyn neu ddwy yn ôl - a deud y gwir dwi'n dal i

ymatab felly, cywilydd!)

Cyrhaeddais y Sinema yn Llandudno y diwrnod o'r blaen hefo fy merch; mynd at y ffenest dicedi a gofyn am ddau docyn i weld ffilm arbennig. Mi ges fy mribo i'r byw pan ofynnodd y bachgen ifanc, 'Will that be one "pensioner"?' a finna'n meddwl 'mod i'n edrych yn reit dda a deud y gwir - wedi cael gwneud fy ngwallt a rhoi lliw ynddo fo! (Mi fu'r digwyddiad yn destun jôc am dipyn yn y tŷ acw wedyn!)

'Yes, plis,' atebais yn gwrtais, gan drïo peidio dangos fy nheimpladau, ond o leiaf mi arbedais tros bunt yn y pris.

Erstalwm ces fy nysgu i godi o fy sedd mewn bws i roi lle i rywun hŷn na fi. Roeddwn yn sefyll ar y bws y diwrnod o'r blaen ac roedd yn ddiwrnod reit boeth a cododd rhyw wraig ifanc imi. Fedrwn i ddim gwrthod fedrwn i. 'Diolch yn fawr,' atebais gan gymryd y sedd yn ddiolchgar. Beth ydi'r dywediad Saesneg 'na - grow old gracefully - bremsiach!

Ddeudis i'r stori 'na am y ciw ... wel, do siŵr iawn ... yr hen gof 'ma ydio. Ond dyna fo, ma'n rhaid rhoi bai ar hwnnw amball dro on'd oes?

EM.H

DRAENOG

Glywsoch chi hanes y dyn hwnnw GATH scREpiad go gas mewn lle tendar gan ryweth miniog pan eisteddodd wrth yr organ un dydd Sul.

Gwylia wir, neu 'Soprano' fyddi di'n ganu yn y Côr Mawr ar nos Wener o hyn ymlaen.

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tunnell diggers bychain ac excavators 360° newyddda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni tauluol gydag 20 mlynedd o brofiad o

rodeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol



WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant

• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol

• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED.

Babanod. Cafodd dosbarth Mrs Humphreys drip da iawn i Nant Gwrtheyrn. Er fod y tywydd yn wlyb a niwlog pan oeddem yn cychwyn cawsom dywydd sych ar ôl cyrraedd Pen Llŷn. Cawsom fynd am dro drwy'r goedwig a gweld adfeilion cartrefi Rhys a Meinir. Yn y prynhawn, ar ôl cinio yn y capel a chware yn y parc, aethom i gyd i lawr i'r traeth yn ara deg bach. Ond mynd yn rhy gyflym wnaeth Miss Rhian braidd! yntê, Miss Rhian? Wedi ffarwelio ag Elen - 'nôl a ni i fyny'r allt fawr serth a Mrs White wedi cau ei llygaid yn dynn. Ni chysgodd neb ar y ffordd adref ar ôl diwrnod da iawn.

Croeso i'r ysgol. Croeso mawr i Mr Gareth Fôn Jones i'r ysgol fel Pennaeth mewn gofal. Mae wedi setlo yn gyflym iawn yn ein plith a gobeithio y gwnaiff fwynhau ei hun yn ein cwmni.

Adran Iau a Blwyddyn 1 a 2. Wel, sôn am blannu! Bu disgyblion blwyddyn Derbyn, 1 a 2 yn brysus iawn yn plannu hadau ar 6 Hydref, yng nghwmni Mr Derek Williams a Mrs Rachel Thorpe. Mae'r ysgol yng nghanol y fenter o ddatblygu gardd natur natuol ar dir yr ysgol. Cafodd disgyblion blynhyddoedd 5 a 6 gyfle i fynd ati i ddylunio a chynllunio eu gardd natuol. Diolchwn i Mrs Thorpe am ei hamser yn y fenter gyda'r disgyblion.



Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau


Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)



'Dewch i adrodd eto'. Cafwyd prynhawn difyr iawn yng nghwmni'r prifardd Selwyn Griffith ar 7 Hydref, sef Diwrnod Rhyngwladol Barddoniaeth. Cafwyd trafodaeth a sgwrs ddifyr iawn gan Mr Griffith i'r ysgol gyfan a chafwyd cyfle i adrodd cerdd Tudur Dylan Jones, sef 'Breuddwyd Bywyd' yn dorfol dan arweiniad Mr Griffith. Am weddill y prynhawn cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 weithdai diddorol.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned, nos **Wener, 12 Tachwedd, i gychwyn am 6.00 yh.** Eisoes y mae'r ymarferion yn cael eu cynnal nos Lun a Mercher yn y Neuadd Gymuned.

ADRAN BENTREF YR URDD. Bydd yr Adran yn cyfarfod y nos Fercher cyntaf wedi'r Eisteddfod bentref.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr oedd: 1. Mr a Mrs Glen Lamb; 2. Siôn Phillips, Tai Arthur; 3. Nansi Jones, Meillionydd.

Y mae Llyfrau Raffi ar werth gan aelodau'r Pwyllgor ac fe dynnir y raffi mewn noson Sôn Corn yn y Neuadd Gymuned, nos Wener, 16 Rhagfyr am 6.30.yh.

Bydd paentio wynebâu, amrywiol stondinau a phaned ar gael. Am 10% o'r elw, mae croeso i unrhyw un arddangos a gwerthu eu cynnyrch. Yn sicr bydd Sôn Corn yno i holi'r plant a chyflwyno anrheg iddynt am bris rhesymol.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Enillydd Pêl Bonws Medi oedd Mrs Catherine Williams, 20 Bryntirion. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y Noson Bingo ar 20

Mwynhaodd yr holl ddisgyblion y profiad. Pwy a wŷr efallai bydd bardd arall yn y gymuned!

Cafwyd prynhawn diddorol ar 14 Hydref, bu Sioe Hud ar y thema, 'Paid cyffwrdd, dwêd,' yn perfformio i'r ysgol gyfan.

Cofiwch bydd cyfle i dynnu lluniau yn yr ysgol ar 8/11/04. Gair i atgoffa'r plant - bydd Campau'r Ddraig yn dechrau ar nos Fercher 3/11/04 rhwng 3.15 a 4.15, yn dilyn hanner tymor.

Hydref. Cynhelir Ffair Nadolig, 19 Tachwedd yn y Neuadd Gymuned. **LLONGYFARCHIADAU** i Emyr a Katy, Glyn Euron, ar enedigaeth Enlli Mair, chwaer bach i Ioan Grant, wyres i Ieuan ac Eiriona a Brian a Sheila Grant, nawr o Gaernarfon, gynt o Gallt y Foel.

Dymuna Emyr a Katy ddolch yn fawr am y cardiau a'r anrhegion a gafodd Enlli.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Wedi canlyniadau clodwiw yn ei arholiad piano, gwahoddir Anest Bryn i berfformio yng Nghyngerdd Goreuon yr Associated Board yn Neuadd Powys, Prifysgol Bangor nos Wener, 16 Tachwedd. Ardderchog Anest, a mwynha'r profiad a'r noson arbennig.

GWELLHAD. Deellir fod nifer wedi bod yn sâl yn y pentref, anfonir y cofion annwylaf atoch a dymunir adferiad iechyd buan i chwi oll.

EIN CYDYMDEIMLAD dwysaf ag Avril a Geraint Williams, Careb, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam annwyl i Avril, sef Mrs Margaret Pearce o Borthmadog. Dyma'r ail brofedigaeth lem i Avril o fewn ychydig wythnosau i'w gilydd. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd fel teulu yn eich colled fawr.

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
- rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU. Y mae'r rhoddion yn dal i lifo i mewn i'r Gronfa ac mae'r nod wedi ei chyrraedd ers wythnosau. Ond derbynir cyfraniadau o hyd. Os dymuna unrhyw un gyfrannu, anfoner i'r Trysorydd, Leslie Larsen, Llygad yr Haul neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

CANLYNIADAU CARNIFAL

ENILLWYR GWISG FFANSI

ADDURNO HET: 1.HANNAH; 2.MAGGIE; 3.CATRIN + TANYA. ADDURNO PRAM: 1. CEINWEN. UNRHYW BAR O DAN 12

1.CATRIN + CLAIRE; 2.GLESNI + JESSICA; 3.IORI + DANNY. UNRHYW BÂR dros 12: 1.DION (JORDAN); 2.MR.SALISBURY + RACHEL THORPE; 3.JAQUIE + SELWYN.

O DAN OED YSGOL: 1.CAI; 2.AMII + CATRIN; 3.CATRIN DONNELLY.

BLWYDDYN 0: 1.ANIA; 2.MAGGIE,CELYTH + SIAN.

BLWYDDYN 1 + 2: 1.GWYDION; 2.HANNAH; 3.SOPHIE.

BLWYDDYN 3 + 4: 1.SION MAXWELL; 2.TOMOS EVANS; 3.HARRI KYLE + SOPHIE HUGHES.

BLWYDDYN 5 + 6: 1.MARK JONES; 2.CATRIN JARVIS; 3.CATRIN WILLIAMS, ELLEN MORRIS + KATIE LEWIS.

YSGOL BRYNREFAIL HYD AT 15oed: 1.DION JONES.

DROS 15oed: 1.GWYNANT MAXWELL; 2.MR SALISBURY + RACHEL THORPE; GRWP: 1.CAST "GREASE"—Y PINC LADIES A'R T-BIRDS.

ENILLYDD YR ENILLWYR: CAI WILLIAMS

HOFFAI PWYLLGOR Y CARNIFAL DDIOLCH O GALON I'R RHESTR ISOD O BOBOL A HELPODD I WNEUD Y CARNIFAL YN LLWYDDIANNUS.

SEINDORF ARIAN DEINIOLEN, DAFYDD A MANON DAFIS, DYLAN GRIFFITHS (am y car), ARWEL JONES (Arweinydd), a HELEN MCGREARY (DAWNSIO SALSIA), JOHN EIFION JONES, DAVID PHILLIPS, MATHEW HAYWARD (CASTELL BOWNSIO), PADARN LAKE, LLANBERIS, CHRIS WAGER, DAVID KYLE, CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS, CÔR PLANT YSGOL PENISARWAUN, YR ATHRAWON AM EU HYFFORDDI, GARETH JONES, LLANBERIS, DAFYDD HUGHES

Y Frenhines ELEN HUGHES a'i Morwynion TANYA JONES A MARED JONES a phawb arall a wnaeth hi'n bosib i ni gael diwrnod da er gwaetha'r glaw.

ENILLWYR MABOLGAMPAU RHEDEG

DAN OED YSGOL: 1.CATRIN, 2.AMII.

BLWYDDYN DERBYN: 1.ANIA; 2.JORDAN; 3.SIAN.

BLWYDDYN 1 + 2: 1.SION; 2.DREW; 3.IORI.

BLWYDDYN 3 + 4: 1.HARRI; 2.NATHAN; 3.TOMOS.

BLWYDDYN 5 + 6: 1.SION PATRICK; 2.DION MAXWELL; 3.CARWYN.

BLWYDDYN 7, 8 + 9: 1.APRIL; 2.LEON; 3.ANEST.

BLWYDDYN 10+: 1.MICKY; 2.ROXANNE; 3.GAVIN

WY AR LWY

DAN OED YSGOL: 1.AMII 2.CATRIN.

BLWYDDYN DERBYN: 1.ANIA; 2.SIAN; 3.JORDAN.

BLWYDDYN 1 + 2: 1.PAIGE; 2.IORI; 3.DREW.

BLWYDDYN 3 + 4: 1.SOPHIE; 2.NATHAN; 3.CLAIRE.

BLWYDDYN 5 + 6: 1.ELEN + KIERAN; 2 CATRIN JARVIS + SION PATRICK; 3 ELEN GWENLLIAN + CARWYN.

BLWYDDYN 7,8,9: 1.LEON; 2.LEANNE; 3.ANNA.

BLWYDDYN 10+: 1.RYAN; 2.JAMIE; 3 MICKY.

RAS SACH

DAN OED YSGOL: 1.AMII + CATRIN.

BLWYDDYN DERBYN: 1.SIAN; 2.JORDAN; 3.ANIA.

BLWYDDYN 1 + 2: 1.SION; 2.DREW; 3.IORI.

BLWYDDYN 3 + 4: 1.CLAIRE; 2.NATHAN; 3.CERIN.

BLWYDDYN 5 + 6: 1.ELEN GWENLLIAN; 2.CARWYN; 3.KIERAN.

BLWYDDYN 7,8 +9: 1.DION; 2.ELIN; 3.ANEST.

BLWYDDYN 10+: 1.GAVIN; 2.LUKE; 3.RYAN.

RAS TAIR-COES

DAN OED YSGOL + BLWYDDYN DERBYN: 1.CLAIRE + ANIA; 2.CATRIN + AMII.

BLWYDDYN 1,2,3 + 4: 1.TOMOS + SION; 2.GLESNI + CERIN; 3.SOPHIE + NIA.

BLWYDDYN 5 + 6: 1.SION + KIERAN; 2.ELEN GWENLLIAN + KATIE; 3.ELEN + CATRIN.

BLWYDDYN 7,8,9 + 10: 1.ROXANNE + MICKY; 2.APRIL + LEON; 3.LUKE + GAVIN.

DIOLCH. Dymuna Elen Hughes, Brenhines y Carnifal, ddiolch i'r trefnwyr, y Pwyllgor a phawb a fu mor garedig wrthi ac am y rhoddion benidgedig. Bu'n ddiwrnod bythgofiadwy.

PLYGU'R ECO. Llauer o ddiolch i'r criw a ddaeth i blygu'r Eco, nos Iau, 30 Medi. Roeddwn wedi gorffen erbyn 7.30. Diolch hefyd i Huw Tegid am nôl yr Eco o'r Wasg ac i swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd yn flynyddol fel hyn.

Hen Ysgol Brynrefail

Er fod yr hen Ysgol Sir, fel y'i gelwid erstalwm, wedi symud o bentref Brynrefail ers 1956, nid golygfa bleserus i hen ddisgyblion yr ysgol oedd gweld a chlywed y peiriannau dideimlad yn rhwygo'r hen adeilad yn deilchion gan adael dim ond atgofion lu ymysg y llwch a'r baw.

Ond diolch i lyfr y Parchedig John Pritchard, Llanberis, am roi hanes pur fanwl am gychwyn a thwf yr Ysgol ym mhentref Brynrefail. Ar adegau mae'n anodd peidio â gofyn yn ddifrifol, 'Beth petae o heb gofnodi'r hanes?' Trwy fanylder ei ymroddiad fe gedwir ar gof ymdrechion diflino, di-ildio a hynod ganmoladwy teuluoedd Dyffryn Peris i hel arian mewn blynyddoedd anodd i godi'r ysgol.

A da o beth oedd i hen bwyllgor y cyn-ddisgyblion gynt, gyda'r diweddar Eric Wakeham ac Eric Roberts wrth y llyw, ddarbwylllo swyddogion y Pwyllgor Addysg yng Nghacrnarfon bryd hynny, mai 'Ysgol Brynrefail' ddylai enw'r ysgol newydd yn Llanrug fod yn ogystal.

Yn sgil yr awgrym a wnaed yn ystod cyfarfodydd dathlu canmlwyddiant yr ysgol yn y flwyddyn 2000 gan Rol Williams, cyn-ddisgybl a fagwyd ym Mrynrefail, y dylid gosod tabled ar hen safle'r ysgol ym Mrynrefail - a hynny nid heb rhyw rith o wrthwynebiad am ryw reswm - i gofnodi'r ffaith fod ysgol wedi bod ar y safle ac i gydnabod aberth trigolion y pentrefi, cytunodd y Cyngor Sir i fod yn gyfrifol i osod llechfaen ger y Ganolfan newydd sydd bellach ar y safle.

Wedi pedair blynedd o ddisgwyl, mae'r llechfaen yn awr yn ei lle ger y fynedfa i'r Ganolfan, ac arni y geiriau canlynol:

Ar y safle hon yr oedd

Ysgol Brynrefail 1900-1956

Ysgol a godwyd drwy ymdrechion di-flino a dyheadau cadarn brodorion y pentrefi cyfagos i roi Addysg Uwchradd i'w plant.

Hunanaberth y rhain, ni fu'n ofer.

Islaw ceir arfbais yr ysgol

Ysgol Brynrefail

Veritate Scientia Labore

Gwirionedd Gwybodaeth Gwaith

Deallir na fwriedir cynnal cyfarfod cyhoeddus yn benodol i ddadorchuddio'r llechfaen ond yn sicr bydd y rhelyw o'r cyn-ddisgyblion a fu yn yr hen ysgol yn falch iawn fod yn awr gofnod gweladwy o'i bodolaeth.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

DYMUNA Bledwyn Jones, 6 Nant Ffynnon, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a'i ffrindiau am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Cefnogwch ein

Hysbysebwyrr

Brian a Rita
Henderson

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR

Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleoli
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Gigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!



**ORIEL
CWM**

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AG ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

YSGOL BRYNREFAIL

Bardd yn ein mysg



Siôn Elwyn Hughes

Mae Siôn Elwyn Hughes, o Flwyddyn 8, wedi cael ei ddewis i ymuno gyda'r bardd Iwan Llwyd ar daith i Lundain. Bydd yn arddangos cerdd a ysgrifennodd fel rhan o'r cynllun Sgwad Sgwennu. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos yn y Festival Hall. Tipyn o gamp yn wir!!!

Ennill



Anna George

Enillodd Anna George, o Flwyddyn 7, gystadleuaeth gwneud poster diogelwch gyda'r Gwasanaeth Tân. Lansiwyd y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod a derbyniodd Anna docyn gwerth £25 i'w wario yn WH Smith. Llongyfarchiadau i ti.

Cynefino



Adam, Llywelyn, Kimberley ac Anest, plant Blwyddyn 7.

Mae disgyblion Blwyddyn 7 wedi bod ym Mrynrefail ers hanner tymor bellach – digon o amser i ymgyswyo a ffurfio barn am yr ysgol. Dyma sylwadau ambell newydd-ddyfodiad:

'Rydwi wrth fy modd ef Addysg Gorfforol – yn enwedig pêldroed. Yr unig beth dydw i ddim yn ei hoffi wir ydi ein bod ni'n cael cymaint o waith cartref – ymhob pwnc!!!'

Llywelyn Williams

'Mae'r gwersi i gyd yn ddiddorol hyd yn hyn, ond dydw i ddim yn hoffi pan rydych yn symud o un wers i'r llall – rydw i'n cael fy ngwasgu braidd ar y coridorau!!!'

Kimberley Owen

'Rydwi wrth fy modd yma yn Ysgol Brynrefail. Mae'r gwersi'n dda ac amser cinio ac egwyl yn well! Addysg Gorfforol yw fy hoff bwnc ar hyn o bryd – does dim gwaith cartref!'

Anest Bryn Jones

Dros Gymru

Yn ddiweddar, ymunodd Ailsa Orlik o Flwyddyn 13, â charfan bêl-droed merched Cymru o dan 19 oed ar gyfer gemau cymhwyso pencampwriaeth Ewrop UEFA 2004/5. Y mae Ailsa bellach yn hen law ar y maes rhyngwladol, a mwynhaodd chwarae yn erbyn tri thîm safonol tu hwnt, sef Rwmania, Bwlgaria, a'r hen clyn

– Lloegr. Enillwyd o 4 gôl i 1 yn erbyn Rwmania, ac o 5 i 0 yn erbyn Bwlgaria, ond hen sgôr gyfarwydd oedd colli o 2 i 0 i Loegr. Serch hynny, roedd ennill dwy a cholli un yn sylweddol well na hanes prif dim y dynion yn docdd?! Tipyn o'r oen yn dysgu'r ddafod i bori hwyrach?!!

'Y peth gorau am Brynrefail yw fod digon o wahanol wersi – dydach chi ddim yn cael digon o amser i gael llond bol arnyn nhw.'

Adam Stuhfelder

Anrhegion at y 'Dolig?

Dyma ddewis eang o lyfrau newydd sbon, rhywbeth at ddant pawb gobeithio, a gyhoeddir gan Wasg Gwynedd, Caernarfon ar gyfer y 'Dolig eleni.

Y Dyn 'i Hun (Cyfres y Cewri 28) Hywel Gwynfryn

Hunangofiant dadlennol y cawr o ddarlledwr sy'n dathlu eleni ddeugain mlynedd o ddarlledu, di-dor.

Cyrr y Diafol Geraint Jones

Awdur poblogaidd (a 'dyn band' erioed!) yn cronico'n ddifyr hanes cynnar nifer o fandiau pres y Gogledd.

Tân ar yr Ynys R. Tudur Jones

Stori ryfeddol ymweliad Evan Roberts y Diwygiwr â Môn. Dadansoddiad treiddgar y diweddar Brifathro R. Tudur Jones.

Amen, Dyn Pren

Gwilym Tudur/Mair E. Jones
Darlun byw o'r iaith yn ei chynefin – y difri a'r digri, y dwys a'r di-chwaeth!

Gymeriadau Môn Emlyn Richards

Portreadau byr, hwyliog o ugain o gymeriadau'r Ynys, gan un sy'n ei nabod hi a'i chymers mor dda!

Idris y Cawr Catherine Aran

Chwedl wreiddiol i blant 6-8 am Idris y Cawr a'i daith hir a pheryglus i chwilio am gartref Lleud, ei gariad.

Hwra! Mae 'na Hipo'n Tynnu'r Sled!

Sonia Edwards (Plant 6-8 oed)
Antur arall am Owain a'r anifeiliaid hud sy'n byw yn y papur wal – y gyntaf oedd Mae 'na Hipo yn y Cwstard!

Symudliw Annes Glynn

Y gyfrol a enillodd i'r awdur Fedal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd eleni.

Jones

Contractwyr
Trydan

Colebadau
Argyfwng ac
Offet Llawm Tân

Cwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o
NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Cenedlaethol

&

Whitehead cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

Atodiad LLANRUG

YR YSGOL GYNRADD.

Oherwydd iddynt gael tywydd mor braf ar y diwrnod yr aethant ar daith gerdded i weld olion y Celtiaid ym Mhen Dinas, Penisarwaun, roedd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 a'u thathrawon yn difaru nad aethant a'u cinio gyda hwy ac aros yno am gyfnod hirach.

Yr Urdd: Aeth nifer o aelodau'r Urdd i gynrychioli'r adran yng Ngala Nofio yr Urdd ym Mhwl nofio Bangor dydd Sadwrn, 16 Hydref. Bu cystadlu brwd drwy'r dydd a daeth rhai o'r ysgol i'r ail a'r trydydd safle. Llongyfarchiadau iddynt, a da iawn y tîm.

Diolch: Dymuna disgyblion y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn ddiolch i rieni y babanod am ddod â'r rhai bach i'r dosbarth er mwyn inni gael gweld faint yr ydym wedi dyfu a datblygu. Diolch hefyd i Wili Watson, y crwb, am ddod ar ymweliad â ni.

Casgliad Diolchgarwch: Eleni aeth ein casgliad ariannol tuag at Apêl Doctor Barnado. Enillwyd y tedi gan Ifan Emlyn, B1.2. Dymunwn ddiolch i bawb a noddodd y plant.

Trip Siopa i Fanceinion. Mae Pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol yn trefnu trip siopa i Fanceinion neu Ganolfan Trafford, dydd Sadwrn, 13 Tachwedd. Cysylltwch â Margaret Williams yn Swyddfa'r Ysgol am fwy o fanylion. Pris £10 y sêd. Cyfle da i wneud eich siopa Nadolig.

DIOLCH. Dymuna Andrew a Judith Beech, Seibiant, Fford yr Orsaf, ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthynt ar achlysur eu priodas fis diwethaf.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug yn y Ganolfan Gymunedol ar nos Fawrth, 14 Medi. Rhoddodd Eryl, y Llywydd, groeso i bawb a chydymdeimlodd ag Ann ar golli ei mam. Llongyfarchodd Ann Ifans ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Llongyfarchwyd plant yr ardal a fu'n llwyddiannus yn arholiadau TGAU a lefel 'A'. Yn ogystal llongyfarchwyd Pat a Berwyn ar ddathlu Priodas Berl (sef 30 mlynedd). Cyhoeddwyd manylion cynllunio cerdyn Nadolig 2005 a chystadleuaeth Sioe Aeaf Llanelwedd 2004.

Gwesteion y noson oedd Gwyn Eryl a'i fab yng nghyfraith. Geraint Lovgreen. Bu'r ddau yn adrodd darnau o'u cerddi bob yn ail, a buan y daeth yn amlwg eu bod yn gallu traddodi ar ystod eang o bynciau, yn y cywair llan a'r lleddf. Roedd cerddi Gwyn yn amrywio o rai ar thema bod yn rhydd, baham, cenhedlaeth bresennol, cerdd i Lisa (ei ddiweddar briod), cerdd i'w wyres ieuengaf, cerddi digrif ar Pero'r ei a frair Llanerfyl. Ar y cyfan roedd mwy o ysgafnder yng ngherddi Geraint, megis ei gân hunangoffannol, cael ei stâllo gan Siân Lloyd, diwygio'r Eisteddfod, llimrigau digrif ac, ar nodyn llawer mwy difrifol, cerdd am y bachgen a gollodd ei

freichiau mewn rhyfel. Gyda'i gyflwyniadau bu Geraint hefyd yn canu - 'Ffarwél i Fangor Uchaf', 'Cân Tref Caernarfon' a 'Nid Llwynog oedd yr Haul'. Bu'n noson ddifur gyda gwaith y tad a'r mab yng nghyfraith yn cyferbynu ac yn asio.

Menna, Olwen ac Ann Ifans fu'n gyfrifol am y baned ac enillwyd y raffl gan Jean. Datgelodd Heulwen, yr ysgrifennydd, fod Eryl yn dathlu pen-blwydd arbennig a chydganodd pawb Pen-blwydd Hapus iddi. Gwestai'r cyfarfod nesaf, a gynhelir ar nos Fawrth, 12 Hydref, fydd y cwmni Geco Arian.

Croesawyd pawb eto y mis hwn gan Eryl, a chyhoeddodd bod Olwen yn dathlu pen-blwydd arbennig y mis yma. Dosbarthwyd manylion am y cinio Nadolig a gynhelir yn y Bistro, Llanberis ar 14 Rhagfyr.

Cyhoeddwyd fod Is-bwyllgor Anabl Rhanbarth Arfon wedi casglu £2,115 tuag at y deillion, a £125 i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd yn ystod y flwyddyn 2003/2004 ac y bydd y casgliad eleni tuag at CLIC. Cynhelir Ysgol Undydd i Ddysgwyr yn Ysgol Maesincla ar ddydd Sadwrn, 13 Tachwedd a gofynnwyd am wirfoddolwyr i siarad â'r Dysgwyr yn ystod y prynhawn.

Mae rhai aelodau wedi trefnu parti llestri ar fore Sadwrn, 30 Hydref a bydd yr elw yn mynd at Bwyllgor Apêl Lleol, Eisteddfod Genedlaethol 2005.

Y gwestai oedd Ann Griffith, sefydlydd a pherchennog cwmni Geco Arian. Bu'n adrodd hanes ei gyrfa gan ddechrau gyda'i blynyddoedd olaf yn yr ysgol; teithio yn Awstralia; cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol mewn coleg yn Coventry; gweithio fel gweithiwr cymdeithasol; teithio India, Nepal, Thailand, Malaysia a Singapore; gweithio gyda gwartheg yn Awstralia; gweithio mewn tafarn yn Awstralia; gweithiwr cymdeithasol ym maes amddiffyn plant; yr awydd i deithio eto yn ei harwain i Bali i weld gemwaith, dodrefn a thecstilau; yna teithio i Mecsico lle bu iddi gyfarfod ag Arab a'i cyflwynodd i rai oedd yn dymuno allforio gemwaith i Brydain.

Adroddodd y cyfan mewn arddull liwgar a byrlymus - buasai'r aelodau wedi gallu gwrandao arni am awr arall. Cafodd pawb gyfle i weld a phrynu amrywiaeth eang o emwaith o wahanol wneuthuriad. Arian, arian a lledr, gwydr murano, darnau acrylic a cherig.

Bethanne, Eileen ac Eirianwen a fu'n paratoi'r baned ac enillydd y raffl oedd Carrie. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Tachwedd a bydd Rhiannon Parri yn son am Hynt a Helynt y Nodwydd Ddwr.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwr**

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto



Boddi yn ymyl y lan, neu methu â chyrra'dd man diogel?

Dro'n ôl gofynnodd Gwynfor J. o Fethal imi, a hynny ar Stryd Llyn yng Nghaernarfon, beth sy'n digwydd i *tyrchod daear*, (*gwaddod*), pan fo afonydd yn gorlifo dros eu glannau, gan ada'l caeau dan ddŵr? Diolchaf iddo o waelod calon am ei ymholiad. Cwestiwn y mae'n rhaid imi ddweud sy'n ddiddorol tu hwnt ac yn un tra arwyddocaol o ystyried yr holl law a'r llifogydd a gawsom 'leni.

Y mae *tyrchod daear* yn byw ac yn mynd ati i storio eu bwydydd, sef *abwyddod*, *pryfed genwair*, *llyngyr daear* a *mwyddod*, mewn twneli tan-ddaeurol, ond ar adegau, yn enwedig pan fo hi wedi nosi, y maent yn dyfod i'r golwg ac yn hela am fwyd ar hyd wyneb y ddaear, a hynny yn y lleindiroedd a'r meysydd a geir uwchben y twneli. Felly, maent wedi hen arfer â mentro o'u cuddfanau tan-ddaeurol.

Ffaith arall amdanynt ydyw bod y *twrch daear* yn medru nofio! Felly, pan fo'r twnnel wedi ei llenwi hefo dŵr, mi fydd y creadur bychan yn ei gwadnu hi am dir uwch, neu'n osgoi'r holl wlybaniaeth drwy symud ymhellach oddi wrtho.

Prawf, yr hen Guto? Tystiola'th? Oes! yn sicr! Flynyddoedd yn ôl, (ac y mae hyn'n a'n swinio'n hynafol!), mi roeddwn yn byw mewn pentref ar lan Afon Dwyrdd ym Mcirionnydd, a chyn wired ag roedd hi wedi glawio'n drwm, a'r cacau clciog gerllaw'r tai yn llawn pyllau dŵr, byddai'r twmpathau *tyrchod daear* yn symud yn nes at yr adeiladau. Byddai hynny'n digwydd yn ogystal pan fyddai'n llawn mawr, (a'r lleuad yn ei llawnder), a hynny, d'alltwch, yn y cacau wrth ymyl y pentref.

Petai'r hen *dwrch daear* yn cael ei gaeithio oddi tan y

ddaeu, a'r dŵr yn llenwi'r twneli, ni fyddai'r creadur yn byw. Byddai'n marw o ddiffyg ocsigen, a'r dŵr yn llenwi ei ysgyfaint.

Er boddi'r tir, nid cefnu ar eu cynefin a wna'r *tyrchod daear*, fel yn hanes pobol ac anifeiliaid Tyno Helyg, a Chantre'r Gwaelod. Sylwch da chwi, ymhen 48 awr wedi'r digwyddiad, a'r llif dŵr wedi llwyr encilio, gwelir dwmpathau *tyrchod daear* o'r newydd yn y caeau. Yn hyn o beth, y mae'r *tyrchod daear* yn ymdebygu i blant dynion pan ddigwydd llifogydd, oherwydd y mynnent ddychwelyd i'w cynefin, er gwacthaf pob dinistr a llanastr. Yn ddi-os y maent yn destun edmygedd!

Cystadleuaeth Calan Gaeaf (yn agored i bob oedran)



Ystlum, neu 'slum yw cnwau er'ill ar y creadur rhyfeddol hwn. A welsoch chwi'r ystlum, neu ystlumod y Gaeaf hwn?

Y cyfan sy'n rhaid i chwi ei ateb ydy' beth ydy'r enw arall arno yn y Gymracg?

Yr ateb cywir, a dynnir o'r Grochan-Dewis-Enillydd, fydd yn ennill yr wob, sef tocyn llyfr Cymracg gwerth £10.

Anfonwch eich enw, a'ch cyfciad yn llawn, (a'r ateb wrth reswm!) at Ddafydd Guto, Y Nyth, Neuadd Glasgoed, LLANRUG, Gwynedd LL55 3BB, a hynny mor fuan ag sy' bosib os gwelwch yn dda.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CYFARFOD EFO'R HEDDLU. Bydd cyfarfod cyhoeddus am 7.00 yh, nos Fercher, 3 Tachwedd i drafod plismona yn y Waunfawr. Yn ogystal â derbyn diweddariad o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd rai misoedd yn ôl, bydd cyfle i gwrdd a siarad hefo'r Heddwes Bro newydd, Gwyn Parry.

CLWB 300. Dyma enwau enillwyr y Clwb am fis Medi: £40: Dr Prys M. Jones, Pant Cae Haidd; £25: Mr E. Pierce, Bryngwyn; £10: Mr J. H. Edwards, Aneddle.

Enillwyr mis Hydref oedd: £40: Mr Ken Latham, Haul a Gwynt; £25: Mr F. Buckley, 4 Croes y Waun; £10: Mr Don Roberts, Sŵn y Gwynt.

DYMUNWN Longyfarch Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen ar ddod yn nain i Thomas Garmon, mab bach Meirion a Marian, a brawd bach i Dion Rhys.

PEN-BLWYDD PRIODAS.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Iris a Keith Owen, Stad Tŷ Hen ar ddatlu ru Priodas Arian yn ddiweddar.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Rhian a Martin, Stad Tŷ Hen ar enedigaeth mab bychan, Tomos, brawd bach i Dylan ac ail ŵyr bach i Menna ac Elfyn, Blaen y Nant.

DATHLU PEN-BLWYDD. Bu un o fechgyn y pentref, Iwan Williams, Trigfan, yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchion i ti Iwan, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

DYMUNWN YN DDA i Gwynedd a Pat a'r hogiau yn eu cartref newydd yn y pentref.

Croeso yn ôl i'r Waun i Huw Gwilym a Maria - mae hwy wedi cartrefu yn Preswylfa.

Dymunwn hefyd groesawu teuluoedd eraill sydd wedi ymgartrefu yma yn y Waun.

ANFONWN ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Rosemary Bracegirdle, Stad Bro Waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, ac at Anna a Jamie hwythau yn eu profedigaeth o golli eu tad.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn ei chartref, 10 Tref Eilian, bu farw Mrs Gwladys Jones, mam annwyl Llinos, Grace ac Elfed, a nain hoffus i'w hwyrion a'i hwyresau. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi oill yn eich colled.

DIOLCH. Dymuna Llinos, Grace, Elfed a'r teulu ddiolch yn garedig i'w perthnasau, ffrindiau a chymdeigion am y lluo cardiau a phob mynegiant o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Dymunant ddiolch i feddygon a staff Meddygfa Waunfawr, y nyrsus lleol, Ward Padarn. Ysbyty Eryri a'r gofalwyr cartref am eu gofal caredig. Diolch am y rhoddion haol er cof tuad at Ward Padarn. Diolch hefyd i'r Parchedig Ronald Williams am ei wasanaeth parchus ddydd yr angladd ac i Mrs Catherine Jones wrth yr organ. Diolch i Gwilym Jones a'i fab, Gaernarfon, am eu trefniadau trylwyr.

ABREF O'R YSBYTY. Antonwn ein gellion at Mr Robin Roberts, 9 Bryn Golau, sydd wedi bod yn yr ysbyty

yn ddiweddar ac at Meilyr Parry, Cefn y Waun a Connor, Teras Eilian, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

ANFONWN ein cofion at Mrs Eirian Jones, Bro Dawel a syrthiodd a thorri ei choes yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Ild Williams, Stad Bro Waun yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

DIOLCH. Dymuna Andrew a Judith Beech, Seibiant, Ffordd yr Orsaf, Llanrug ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthynt ar achlysur eu priodas fis diwethaf.

DIOLCHIAU. Dymuna Valmai Wyn Evans, Rhoslyn, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am yr anrhegion, blodau a'r holl gardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddeugain oed ar 27 Medi.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Cafwyd pnawn diddorol iawn yng nghwmni Mrs Susan Peters o Blodau Celtic, Caernarfon ar 7 Hydref. Gwnaeth amryw o drefniadau gyda blodau a phlanhigion sychion ar gyfer y Nadolig. Roedd yr aelodau yn awyddus i gael cymaint a phosib o awgrymiadau ar sut i wneud rhai eu hunain. Diolchwyd i Mrs Peters gan Catherine Jones, y Llywydd. Enillydd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Iris Evans, gan Mair Parry. Ar 4 Tachwedd, cynhelir y Cyfarfod Blyneddol. Mae croeso cynnes i aelodau newydd.

NEWYDDION CÔR Y WAUN. Bu'r Côr yn cadw cyngerdd gyda Dylan a Neil (a Bob) ac Unsain at Ymchwil Cancr ym Mhenygroes ar 8 Hydref. Er nad oedd yno gynulleidfa helaeth roedd y croeso

a'r gwrandawriad yn gynnes dros ben. Cafwyd digon o hwyl rhwng jôcs Dylan a hiwmor parod John Gwynedd wrth iddo gyflwyno'r côr a thynnu'r raffl, ac mi dybiaf fod yna ddigon o luniaeth i ddau gôr ar y diwedd - gresyn fod rhai ohonom wedi cymryd bwyd cyn mynd! Bydd y côr ym Mhenrhyndeudraeth ar nos Iau, 4 Tachwedd ac yn Llandwrog ar 18 Tachwedd. Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r côr cofiwch gysylltu â'r ysgrifennydd, Emyr Roberts ar (0128) 650128.

YSGOL WAUNFAWR.

Mae llawer o'r plant wedi derbyn eu cotiau a'u capiau ysgol newydd gan y Cwmni School Trends a rhaid dweud eu bod yn edrych yn smart dros ben.

Edrychai'r staff a'r plant yn go wahanol yn eu jins ddydd Gwener, 1 Hydref. Diolch i bawb am gefnogi 'Jeans for Genes Day'. Casglwyd £100 ar gyfer Ymchwil Clefyd Siwgr.

Roedd pawb wedi lapio'n gynnes dydd Gwener, 15 Hydref, ar gyfer ein trip ar y trên bach o Waunfawr i fyny at Ryd-ddu, ac wedyn i lawr i Gaernarfon ac yn ôl adref. Cawsom ddiwrnod i'r brenin a mwynhaodd pawb y daith er gwaetha'r tywydd. Diolch arbennig i gwmni'r rheilffordd am drefnu'r wibdaith, roedd y cyfan am ddim a chafodd y plant gardiau post, creision, da da a diod yn ystod y dydd.

Hoffem longyfarch Mrs Sioned Parry ar ei phenodiad fel athrawes Feithrin yr ysgol. Bydd yn cychwyn yn ei swydd ar 1 Tachwedd. Dymunwn yn dda iddi gan obeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

Bydd Mrs Gwenda Griffydd yn symud i'r dosbarth Derbyn ar ôl hanner tymor gan fod Mrs Sioned Hughes, yn anffodus, yn dechrau

ar ei swydd newydd yn Ysgol Maenofferen, Blaenau Ffestiniog. Dymunwn yn dda i Sioned ac hoffem ddiolch iddi am ei chyfeillgarwch a'i gwaith cydwobodol dros y tair mlynedd ddiwethaf. Bydd y plant, y staff a'r rhieni yn gweld dy golli, Sioned.

Yn yr un modd bydd Mrs Nia Evans yn gorffen yn yr ysgol ddydd Gwener, 15 Hydref. Diolchwn iddi hithau am ei gwaith a'i chwmni dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Bydd Miss Rhian Davies yn ymgymryd â'i swydd, a gobeithiwn y bydd hithau yn hapus yn ein mysg.

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Croesywaun ddydd Gwener, 22 Hydref am 10.00 o'r gloch. Diolch i bawb a amunodd â ni.

Gwyliau hapus i bawb. Bydd yr ysgol yn ailagor ar ddydd Llun, 1 Tachwedd.

Bwrdd Iechyd Lleol

Osgowch y fflw, mynnwch frechiad!

Bydd Ymgyrch Cenedlaethol Brechiad y fflw yn dechrau ar 29 Medi. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd yn annog pobl sy'n gymwys i dderbyn y brechiad fflw yn rhad ac am ddim.

Mae brechiad y fflw yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r pigiad yn creu rhywfaint o ddolur weithiau yn safle'r brechiad neu ychydig o wres a'r cyhyrau'n boenus am ychydig o ddyddiau. Nid yw'r brechiad yn cynnwys firsau byw, felly ni all achosi'r fflw. Ni ddylai unrhyw un ag alergedd difrifol i wyau ieir gael y pigiad (mae hyn oherwydd bod wyau ieir yn cael eu defnyddio i gynhyrchu'r brechlyn). Ni ddylai salwch ysgafn atal neb rhag derbyn y brechiad.

Rydych angen brechiad y fflw pob hydref os:

ydyd dros 65 mlwydd oed;


ydyd o dan 65 ac yn dioddef gan unrhyw un o'r afiechydon canlynol:

- clefyd cronig y galon
- clefyd cronig yr arennau
- clefyd siwgr
- problemau ar y frest gan gynnwys asthma
- imiwnedd isel oherwydd afiechyd neu driniaeth megis moddion steroid neu driniaeth canser
- unrhyw anhwylder meddygol difrifol arall

neu os ydych yn ofalwr neu'n weithiwr gofal icchyd sy'n debyg o gysylltu'n rheolaidd â phobl sy'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r brechiad neu os ydych yn dymuno cael rhagor o wybodaeth, siaradwch â'ch Meddyg Teulu neu Nyrs y Practis. Maen nhw mewn lle da i'ch cynghori gan ystyried eich amgylchiadau personol.

Cysylltwch â'ch meddygfa nawr i wneud apwyntiad.




Plant ysgol Waunfawr yn mwynhau eu hunain ar y trên.



... Cael hwyl er gwaethaf y glaw.

Rygbi



Tim rygbi dan 14 yr ysgol

Newyddion cymysg sydd o'r maes chwarae y mis hwn. Chwaraeodd tîm dan 13 ddwy gêm yn ddiweddar. Serch ymdrech lew, colli fu eu hanes. Daliwch i frwydro hogia ac fe gewch eich haeddiant cyn bo hir!! Newyddion gwell sydd ynglŷn â thîm dan 14 oedd yr ysgol. Hyd yma, maent yn ddi-guro. Llwyddasant i drechu Llangefni o 30-10, Amlwch o

69-0 ac fel yr oedd yr Eco yn mynd i'r wasg, roeddent wedi trechu Ysgol Tryfan hefyd!! Tipyn o gamp. Daliwch ati hogia! Dyma adroddiad Gerallt Bryn o flwyddyn 9 ar y gêm:

* * *

Hogia Brynrefs oedd yn rheoli trwy gydol yr hanner cyntaf gyda Gethin Phillips ar ei orau yn sgorio 4 cais ac Alex Lynes yn cicio'n wych, gan lwyddo i

drosi 3 allan o 4 cynnig. Yn ogystal, llwyddodd Alex i sgorio un cais ei hun. Roedd Tim Brynrefail yn tacio'n gryf ac ni lwyddodd hogiau Tryfan i ddod yn agos at eu llinell gais eu hunain.

Yn yr ail hanner, ceisiodd Ysgol Tryfan frwydro'n ôl a llwyddasant i sgorio un cais. Fel ymateb i hyn, sgoriodd Iwan Morgan gais gwych trwy redeg

trwy amddiffyniad Tryfan. I goroni'r cyfan fe sgoriodd Dylan Huws ddau gais a llwyddodd James Lewis i drosi un ohonynt.

Er iddynt frwydro'n galed yn y gwynt a'r glaw, doedd hogia Ysgol Tryfan ddim yn gallu cystadlu yn erbyn nerth a chyflymder hogia Brynrefs. Y sgôr trefynol oedd Brynrefail 48 - Tryfan 5.

Camu Ymlaen

Mae nifer helaeth o'n disgyblion wedi llwyddo yn eu dewis feysydd yn ddiweddar, ac mae eu hymrwymiad a'u dyfalbarhad wedi talu ar ei ganfed wrth iddynt gael eu dewis i ymuno â charfannau Gwynedd neu Ogledd Cymru.

Dewisiwyd Dylan Eddy o Flwyddyn 11 i'r garfan bêl-droed dan 16; Caryl Wood, Sara Woodcock a Gwenonwy Alun o Flwyddyn 11 a Lowri Hughes Jones o Flwyddyn 10 i'r garfan pêl-rwyd dan 16 oed, a Lowri Jones, Ella Christie a Marged Rhys i'r garfan bêl-rwyd dan 14 oed. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch.



Lowri, Ella a Marged, y chwaraewyr pêl-rwyd.

Pêl-droed

Chwaraeodd y tîm hŷn ddwy gêm bwysig yn ddiweddar. Colli o un gôl i ddim yn y munud olaf oedd eu hanes yn erbyn Coleg Menai, a cholli o 3 gol i 2 yn erbyn Ysgol Tryfan. Colli hefyd fu hanes y tîm dan 14 yng nghystadleuaeth Cwpan Cymru yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen, ond daeth newyddion gwell o barthau'r tîm dan 16 - enillasant o 5 gôl i 3 yn erbyn Ysgol Eifionydd. Byddant yn wynebu Ysgol y Moelwyn, y Bala yn y rownd nesaf - pob lwc iddynt.



Dylan Eddy, y pêl-droediwr.



Lowri, Gwenonwy, Sara a Caryl, y chwaraewyr hoci.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DIOLCH. Dymuna Geraint a Cheryl ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion ag arian a gawsant ar enedigaeth eu mab, Aron Wyn, brawd bach i Osian.

DYMUNA Margaret Griffiths, 7 Llainwen Isaf, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Abergele, ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Margaret Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chyd-weithwyr yn ardal Bro'r Eco am yr anrhegion, arian, blodau a chardiau a dderbyniodd ar ei hymddeoliad ar ôl 30 o flynyddoedd fel Gofalwraig Cartref. Buont yn amseroedd hapus iawn. Diolch o galon i bob un ohonoch.

CYMDEITHAS YR EGLWYS.

Cynhaliwyd cyfarfod y mis yn Angorfa o dan gadeiryddiaeth Anne P. Jones. Cymerwyd y rhan dechreuol gan Ralph Jones a'r gŵr gwadd oedd Alan Pritchard o'r Parc Cenedlaethol. Cafwyd sgwrs a sleidiau gwyb gando ar ei waith fel Warden, oedd yn cynnwys yr Wyddfa ac i lawr i Ddyffryn Ogwen. Diolchwyd iddo ac i Avril Pritchard a Sybil Evans am y baned a'r raffl gan Heulwen Edwards, a'r enillydd Iwcus oedd Betty Parry. Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Catherine Pritchard yn eu profedigaeth.

NOSON GOFFI AC ARWERTHIANT Diolch i'r merched am drefnu ac i bawb a gefnogodd yr ymdrech er budd Ysgol Pendalar, Caernarfon. Caed noson lwyddiannus tros ben a chasglwyd y swm o £642 i'r Ysgol.

BORE COFFI er budd Gronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Gylch. Drwy garedigrwydd Danny a Nerys caed Bore Coffi llwyddiannus yn y Bistro ar ddydd Gwener, 15 Hydref. Gwnaed elw o £108.50 i'r ymdrech leol tuag at yr Eisteddfod. Diolch i Mattie a Delyth am drefnu y bore.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, 5 Hydref cafwyd sgwrs gan y Parchedig Huw Gwynfa Roberts, Llanwnda. Roedd wedi dod a rhan o gasgliad diddorol o hen boteli sydd ganddo, a hanes

fel y treuliodd oriau yn tyllu mewn hen dipiau sbwriel amdanynt. Roedd rhai yn werthfawr iawn.

Cynhelir y Gymdeithas nesaf, nos Fawrth, 2 Tachwedd am 7 o'r gloch yn Ffestri Capel Coch pryd y bydd Dr Dafydd Roberts, Ceidwad yr Amgueddfa Lechi yn rhoi sgwrs ar 'Twm Chwarae Teg a'i Glawdd Pileri Llechi'. Croeso cynnes i'r hen aelodau ac i aelodau newydd. **CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS** Bu misoedd Medi a Hydref yn rhai prysur iawn i'r Côr.

Yn ogystal â'r ymweliad misol â Gwesty'r Fictoria, cymerodd y Côr ran mewn pedwar achlysur arall. Nos Sul, 12 Medi roeddynt yn canu yng Nghymanfa Ganu Gŵyl Ffair Nant yn Eglwys Sant Peris. Ar nos Wener, 24 Medi, gwelwyd hwy yn diddanu pobl Gaerwen - er budd Clwb Gateway - sydd yn cynorthwyo pobl ag anghenion arbennig.

Y nos Sul dilynol, 26 Medi, Eglwys Penisarwaun oedd cartref y Côr, lle cymerwyd rhan yng Nghymanfa Ganu Carnifal y pentref.

Yn ddiweddarach, ar nos Wener, 8 Hydref, gwelwyd y Côr yn diddori cynulleidfia yng nghlwb Rhosgadfan, er budd Cronfa Ann T, tuag at Adran Cancr Ysbyty Glan Clwyd.

GYMANFA GAROLAU

Capel Coch, Llanberis
Nos Sul 5ed o Ragfyr 2004
7 yn yr hwyr

Eitemau gan
Disgyblion
Ysgol Dolbadarn
Côr Meibion Dyffryn Peris
a Lleisiau Lliwedd

Arweinydd y Gan
Lowri Prys Roberts-Williams
Organydd
Gareth Jones

Mynediad Oedolion £3
Plant £1

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

PENBLWYDDI O BWYS.

Llongyfarchiadau i Beryl Roberts, Erw Wen ar ei phen-blwydd yn 60 oed, gyda pharti ym Mhenrhos. Hefyd Tony Griffiths, Tai Brynteg, a fu'n dathlu ei 50 pen-blwydd yn ddiweddar.

GOR-YRRU. Diolch i Heddlu Gogledd Cymru am ymateb i'n cais a dod efo'r teclyn radar i ganol y pentref un bore Sadwrn a phrynhawn Mercher. Deallwn bod nifer wedi cael eu dal yn gor-yrur trwy ganol y gymuned.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Disgwylir cynnal y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Tachwedd:

- 7: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Parch Gareth Maelor (Cymun)
- 14: 11.00 Ysgol Sul;
- 21: 10.00 Mr Huw Jones;
11.00 Ysgol Sul;
- 28: 11.00 Ysgol Sul.

TYNFAL MISOL. Enillwyr Tynfa

Misol Cymdeithas y Cae Chwarae am fis Hydref oedd:

£40: (26) Jean Williams, Llety; £25: (67) Barry Evans, 11 Erw Wen; £15: (89) Derwyn Roberts, Cefn Rhos Isaf; £5: (32) Doreen Moore, Eryl.

CLWB Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar 23 Medi yn y Bryn Gwna er mwyn trefnu'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn. Bellach trefnwyd y gweithgareddau ac mae amrywiaeth ddifyr yn ein haros. Croeso i aelodau hen a newydd i nosweithiau'r clwb yn ystod 2004/05.

Erbyn i'r Eco fynd i'r wasg byddwn wedi cynnal noson ddawnsio llinell yn y Ganolfan ddiwedd Hydref. Y mis nesaf cynhelir arddangosfa 'Sugarcraft' yn y Ganolfan ar nos Iau, 25 Tachwedd am 8 o'r gloch. Croeso i bawb.

DYWEDDIO. Llongyfarchiadau i Susan Thomas, 4 Bryn y Gof ar ei dyweddiad â Kelvin Japheth.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

Pryd i Barab
Barab blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

To Angladdau

Pinto Bunes

CERID MACKINNON

Plas Tirion, Maunio, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PQ

(01286) 673190



GORSAF BETROL

BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TIGEDI LOTERI AR WERTH YMA!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

EISTEDDFOD 2004

Llinell Goll

Nos Sadwrn aeth Wiliam am dro
Fel arfer, o gwmpas y fro,
Ond O! cafodd fraw
Pan welodd fan draw

Dychweler i Manon Gwynedd,
'Llys Myfyr', erbyn 8 Tachwedd.
Diolch.

EISTEDDFOD ERYRI 2005.

Mae'r pwyllgor lleol wedi cyfarfod
ac wedi amlinellu rhaglen
weithgaredd ar gyfer Tymor y
gaeaf. Bydd y gweithgareddau yn
cael eu hysbysebu yn lleol.

Fe ddechreuir ar Nos Wener,
Tachwedd 19 yn Y Bedol am 8pm.
Yr atyniad yw Talwrn y
Dyffrynnoedd, pan fydd timau yn
cynnwys aelodau o wahanol
dimau y rhaglen radio, Talwrn y
Beirdd' yn herio a diddanu. Y tri
thim fydd Dyffryn Peris, Dyffryn
Ogwen a Dyffryn Nantlle. Cost
mynediad i'r noson hwyliog hon
fydd £3. Edrychwn ymlaen am
gefnogaeth deilwng.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd
cyfarfod y mis nos Fercher, 14
Hydref, yn Ysgol Gynradd Bethel.
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y
Llywydd, Rhian Hughes. Cafwyd
adroddiad ganddi ar amrywiaeth o
bwyntiau a godwyd yn y pwyllgor
Rhanbarth yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd Alys Jones gan
Lywydd y Rhanbarth, Einir Wyn,
ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod
Genedlaethol yn yr haf.

CODI ARIAN. Fis yn ôl, aeth rhai
aelodau o'r gangen i Safeways i
bacio bagiau am dair awr un bore
Sadwrn. Codwyd £159.89 a
diolchodd Rhian i bawb a
gymerodd ran a diolchodd hefyd i'r
ysgrifennydd am wneud y
trefniadau angenrheidiol.

PAENTIO AR SIDAN. Unwaith
eto, cafwyd noson hynod o ddifur
a chartrefol yng nghwmni
Margaret Jones a'i merch, Jên, yn
dangos i'r aelodau sut i baentio ar
sidan. Dangosodd sawl enghraifft
o waith y ddwy ohonynt yn paentio
ar sidan gan addo y byddai pawb
yn mynd adref gyda'u campwaith
eu hunain! Mwynhaodd y merched
y gweithdy gyda phob un yn
gorffen cerdyn Nadolig taclus iawn
ar gyfer y Dolig. Diolchwyd iddynt
gan Anne Elis. Enillwyd y raffl gan
Margaret Druce.

Y mis nesaf bydd Geco Arian yn
dod i arddangos ei gwaith i'r
gangen.

DIOLCHGARWCH,
CAPEL BETHEL. Cynhaliwyd
gwasanaeth o Ddiolchgarwch gan
blant yr Ysgol Sul ar 17 Hydref i
gynulleidfa deilwng. Rhoddwyd
basged o ffrwythau i breswylwyr
Sant Teilo, a hefyd cyflwynwyd
gopi cain o'r Beibl Newydd i'w
ddefnyddio yn y capel gan blant yr
Ysgol Sul er cof am Eluned Ellis
Jones.

Y CYSEGR. Fore Sul, 17 Hydref,
cynhaliwyd Gŵyl Diolchgarwch
yng nghwmni plant yr Ysgol Sul.
Thema'r gwasanaeth oedd diolch
am y tymhorau gyda phob
dosbarth yn arwain y diolch am
bob tymor yn ei dro a'r plant hyn
yn arwain. Cyfranwyd y casgliad
rhydd at yr Ambiwllans Awyr.

ADRAN YR URDD. Mae dros 70 o
blant o flwyddyn 2 i flwyddyn 6
wedi ymaelodi gyda'r Adran eleni.
Mae'r Adran yn cynnal sesiynau
bob yn ail dydd Mercher yn y
Neuadd Goffa. Mae Llinos
Griffiths yn arwain y sesiwn gyntaf
i blant blyneddoddd 2 a 3 o 5.30
tan 6.15. Mae'r ail sesiwn ar gyfer
plant blyneddoddd 4, 5 a 6 o 6.30
tan 7.30 o dan ofal lola Jones.
Cafwyd sesiwn Bingo i gychwyn y
gweithgareddau ac roedd y plant
wrth eu bodd gyda'r gêm.

Yna, nos Fercher 13 cafwyd
sesiwn celf. Daeth Nan Jones,
Ruth Lloyd a Bethan Roberts i
wneud gweithgareddau celf gyda'r
plant ieuengaf ac roedd pawb
wedi mwynhau cael gwneud
gwahanol bethau. Daeth Steffan
Jones at yr ail sesiwn i ddangos a
sgwrsio am ei waith fel artist a
thynnu llun ambell un! Diolch yn
fawr i chwi i gyd.

Aeth yr aelodau canlynol i
gynrychioli'r Adran yng Ngala
nofio'r Urdd ym Mangor dydd
Sadwrn, 16 Hydref: Phoebe
Hunter, Fflur Huws, lola Hughes,
Ifan Roberts, Gethin Jones,
James Bell, Lowri Sharpe, Ild
Jones, Einir Evans, Manon Grail,
Bronwen Price, Aled Jones,
Daniel Bell, Gerallt Bryn ac Aaron
Gwyn. Mi noliodd pawb yn
ardderchog ac roedd cystadlu
brwd yno gyda thros 30 yn cymryd
rhan mewn ambell gystadleuaeth.
Fe lwyddodd lola Hughes i ddod
yn ail yn y ras broga i lwyddyn 3 a

4. Llongyfarchiadau i ti lola.
Roedd sawl un arall wedi gwneud
yn arbennig o dda yn eu ras ond
nid yn ddigon cyflym i fod yn tri
cyntaf yn eu cystadleuaeth. Rhaid
canmol ymdrech pob un ohonoch
a diolch i'r rhieni ddaeth i'ch
cefnogi. Bydd y sesiwn nesaf nos
Fercher, 3 Tachwedd, y sesiwn
chwaraeon dan ofal Aled Jones o'r
Urdd.

Os oes unrhyw un arall yn
dymuno bod yn aelod o'r Urdd
cysylltwch â lola Jones (01248)
670898. Rhaid cofrestru cyn cael
mynychu'r sesiynau.

NEWYDDION O'R YSGOL.

Dymunwn wellhad buan a llwyr i
Mrs Guillemin a Mrs Sian Jones, y
ddwy wedi derbyn triniaethau
mewn ysbytai. Rydym yn edrych
ymlaen i'w gweld nôl yn yr ysgol.

Estynnwyd croeso i Miss
Wendy Hebenstreit yn athrawes
yn y dosbaeth Meithrin a derbyn.
Mae Miss Hebenstreit wedi setlo i
lawr erbyn hyn ac yn cyfrannu'n
frwdfrydig at holl weithgareddau'r
ysgol.

Aeth Blwyddyn 6 ar ymweliad 3
diwrnod â Gwersyll yr Urdd,
Glanllyn. Roeddynt dan ofal Miss
Nia Gwawr Jones a Mrs Mari
Williams. Cawsant gyfle i
gymdeithasu â phlant o ysgolion
eraill y cylch.

Bu'r adran lau ar ymweliad â
Llandudno fel rhan o'u gwaith
daearyddiaeth o astudio'r prom ac
arferion siopa'r teulu. Bu blwyddyn
6 ar ymweliad â'r Mosg ym
Mangor fel rhan o'u gwaith Addysg
Grefyddol yn astudio'r grefydd,
Islam.

Daeth Mr Wil Lloyd Davies,
Caernarfon i arwain yr ysgol
mewn Gwasanaeth Diolchgarwch.
Gwnaed casgliad tuag at Hosbis
yn y Cartref, Gwynedd.

Bydd y Ffair Llyfrau flynyddol
yn dechrau 8 Tachwedd. Bydd yr
ardal lau yn recordio trac ar CD
newydd yn Theatr Seilo yn fuan.
Bydd elw'r CD tuag at Gyngor yr
Henoed.

Yng nghyfarfod cyntaf y Corff
Llywodraethol newydd, etholwyd
Mr Iwan Trefor Jones yn
Gadeirydd a Mrs Manon Dauncey
Griffith yn is-gadeirydd.

Aelodau eraill y corff yw Y
Cynghorydd Huw Hughes, Mr
Meurig Huws, Mr Ynyr Hughes,
Mrs Lynn Pierce, Mrs Ruth Lloyd,
Mrs Carol Owen, Mrs Nora Parry,
Mrs Anne Elis, Mrs Clare Yardley
Hughes a'r Parchedig Gwynfor
Williams.

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun

Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

*Blodau
Racca*

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion,
Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod
yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau
Siarad/Talking Pages
0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau
a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfaillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddaliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru.
o Audi i Zastava



website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrellad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



*Silver
STAR*
GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROPE AC
YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A
MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y
GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DYMUNA Mrs Helen Munro, 1 Penrallt, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu blodau, anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

ACHOS TEILWNG DROS BEN. Yn ystod y Pasg a'r haf eleni cynhaliwyd stondinau gwerthu nwyddau a rafflau o bob math ar Faes Carafanau Neuadd Glasgoed, Llanrug (drwy ganiatâd caredig Mr a Mrs D. Roberts, Y Bwthyn). Trefnwyd yn ogystal daith gerdded noddedig o Fraich Melyn, Bethesda, a ddiweddodd tu allan i siop gig Wavell Roberts, Llanrug hefo gwres yn codi'n golofna myglyd o 'sgidia' un cerddwr bychan byr-goesiog! Ddydd Llun, 11 Hydref, tra roedd rhai ohonom allan yn yr heulwen ac yn canmol y tywydd am unwaith cyfrannwyd £518.75 tuag at Ymchwil Cancr y Fron yng Ngwynedd. Trosglwyddwyd y siec i aelod o'r staff sy'n ymwneud â Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, a hynny am 11.40 y bore. Dymuna'r trefnwyr ddiolch o waelod calon i'r canlynol am eu cymorth parod: Llyfrau Palas Print, Caernarfon; staff Hyfforddiant Gwynedd, Cibern; Wavell Roberts a'i gyd-weithwyr, y siop gig, Llanrug ac i bawb arall am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth.

PROFEDIGAETHAU. Yn dawel, bu farw Mrs Peggy Jones, 55 Bro Rhyddallt. Roedd wedi brwydro yn dawel, fel roedd wedi byw ei bywyd. Cydymdeimlwn yn arw â'r plant, Sandra, Michael a Carolyn, ei dwy wyres fach a'i phartner triw iawn, Ronnie. Bydd colled fawr iddynt i gyd.

Hefyd, yn dawel ond yn sydyn, bu farw Mrs Jennie Williams. Bod Fair, Ffordd yr Orsaf. Daeth yma fel Ymwelydd Iechyd tua 35 o flynyddoedd yn ôl ac mae wedi bod yn rhan o'r gymuned a chefnogol iawn i bob dim Cymraeg a Chymreig. Roedd ganddi ddiddordeb ym 'mhethau'r pentref' ac yn holi am bawb, ac wrth ei bodd yn cael ymweliad gan ffrindiau.

Anfonwn ein cydymdeimlad â'r teulu, Ceri a John, y plant, yr wyron a'r wyresau a'r gor-wyr. Bydd colled fawr iddynt ac hefyd i'r cymdogion a'r ffrindiau sydd wedi gofalu amdani.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU. Pwyllgor Llanrug. Erbyn hyn, bydd tri gweithgaredd wedi ei gynnal. V

Pêl-droed Noddedig o dan law Aled a Dafydd Gibbard. Bu yn llwyddiannus iawn gyda chymaint o blant a rhieni yn cymryd rhan.

Swper yn y Caban, Brynrefail. Daeth tua 40 i gael swper da iawn gyda'r elw i'r Pwyllgor. Roedd yn noson llwyddiannus iawn a chymdeithasol. Diolch i Siôn a Nan Humphreys a Frank a Meryl Green am drefnu.

Parti Llestri yn y Ganolfan. Cyfle i brynu llestri o bob math a chael paned a sgwrs. Roedd sawl aelod o'r Pwyllgor a'u ffrindiau yn gyfrifol am y bore hwn.

Mae CD yn brysur cael ei chreu fydd yn cynnwys lleisiau plant, pobl ifanc, corau a'r band yn lleol. Edrychwn ymlaen i gychwyn gwerthu hon.

Bydd Raffl Fawr yn dod yn fuan hefyd. Mae sawl gweithgaredd ar y gweill ac fe fyddwn yn gadael i bawb wybod mewn digon o bryd. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

DEINIOLLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Mrs Eirlys Lloyd Jones, 5 Bro Deiniol, ddiolch i'w theulu a'i chyfeillion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Margaret Williams, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chyd-weithwyr yn ardal Bro'r Eco am yr anrhegion, arian, blodau a chardiau a dderbyniodd ar ei hymddeoliad ar ôl 30 o flynyddoedd fel Gofalwraig Cartref. Buont yn amseroedd hapus iawn. Diolch o galon i bob un ohonoch.

DYMUNA Mrs Helen Munro, 1 Penrallt, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu blodau, anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR. Dydd Sadwrn, 9 Hydref, aeth aelodau

Merched y Wawr ynghyd â rhai o'u cyfeillion, am dro i Nant Gwrtheyrn a Phwllheli. Roedd yn ddiwrnod hyfryd a'r wlad ar ei gorau. Wedi cinio yn y Nant ac edrych o gwmpas y lle a gweld y capel wedi ei weddnewid, aethom i Bwllheli a dod adref cyn iddi nosi. Cafwyd diwrnod da iawn.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Mis Medi, ail-ddechreuwyd y Gymdeithas, a chafwyd noson arbennig yng nghwmni Mrs Sarah Morris Jones o Dreborrh. Yn ei sgwrs gartrefol aeth Sarah a ni yn ôl i gyfnod yr Ail Ryfel Byd, pan roddwyd hi a'i dwy chwaer ar y trên yn Lerpwl a chyrraedd Llanberis fel *evacuee*. Soniodd am yr hiraeth, y croeso a'r troeon trwstan a ddaeth i'w rhan, a pha ffordd y bu iddi ddysgu Cymraeg yn rhugl. Diolchwyd i Mrs Jones am roi noson mor llawn o atgofion a phrofiadau a ddaeth i'w rhan.

Naws gartrefol oedd i gyfarfod mis Hydref, pan ddaeth Dafydd Morris, Cefn Coch atom i siarad am ei blentyndod yn Neiniolen, yn mynychu Ysgol Llandinorwig ac yna gweithio yn Chwael Dinorwig. Ar ôl y sgwrs mwynhaodd pawb swper y cynhaeaf. Noson pan ddaeth Dafydd Morris ac amser mwy hamddenol yn ôl inni.

Diolchwyd iddo gan Mrs Jennie Williams a gwerthfawrogydd gwaith y merched yn paratoi swper mor flasus i'r aelodau.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 1 Tachwedd a'r siaradwr gwadd fydd Mr Richard Jones, Glynog. Bydd croeso cynnes i bawb.

YSGOL FEITHRIN. Cychwynnodd 8 o blant newydd yn yr Ysgol Feithrin mis Medi a gobeithio eu bod i gyd wedi ymgartrefu erbyn hyn.

Cynhelir Noson Tân Gwylt yn iard yr Ysgol Feithrin nos Fercher, 3 Tachwedd. Drysau'n agor am 6 o'r gloch ac i gychwyn am 6.30. Mynediad: £1.50 i oedolion a £1.00 i blant, gyda mynediad am ddim i blant yr Ysgol Feithrin. Bydd yno amryw o stondinau, fel cŵn poeth, cacennau, diodydd a melysion.

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

BEICS MENAI

1 Cei Llechi, Caernarfon

01286 676804 • 07770 951007

Ffair Nadolig yng Ngwesty Carreg Bran
Llanfair Pwllgwyngyll



Dydd Sul 31 Hydref

- Beics o bob math
- Trelars i blant
- Beics tynnu i blant
- Nwyddau Beicio

Bargeinion ar gyfer y Nadolig!

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

DYMUNA Mrs Helen Munro, 1 Penrallt, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu blodau, anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Nerys a Rheon, Bryn Hyfryd, ar enedigaeth eu mab bychan, Owain, brawd bach i Leigh. **CAPEL Y TABERNACL.**

Cynhaliwyd Gŵyl y Diolchgarwch dydd Sul, 17 Hydref, gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Diolchwyd yn ddiifant i Mr Dafydd Price am ei waith penigamp ar wneud y 'ramp' o giât i ddrws y capel, hefyd i bawb a ddaeth i lanhau'r capel ar gyfer yr ŵyl.

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd cyfarfod yn yr ysgol gymuned nos Lun, 4 Hydref. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Mrs M. Roberts, Mrs M. Latham, Mrs Marjorie Roberts a Mrs H. Orritt. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Medi a thrafodwyd rhai materion. Croesawodd Mrs Dorothy Jones wraig wadd y noson, sef Mrs Cath Hughes o Lanfairpwll a'i thestun oedd 'Y Cristion a'r Ddraig'. Cafwyd sgwrs ddiddorol am y cyfnod a dreuliodd fel

derbynnydd i Feddyg a sut y daeth yn well Cristion ar ôl cael damwain erchyll. Y gwesteion oedd Mrs Joyce Ransom a Mrs Enid Taylor, hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Dorothy. Diolchwyd i Mrs Hughes ac i'r gwesteion gan Mrs Gwen Owen. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras. **EGLWYS SANT GABREAL.** Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, 10 Hydref.

Fore Sul, gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan ein Curad, y Parch Deiniol Morgan a Phregeth y Cynhaeaf gan y Parch Idris Thomas, Clynnog, Llanaelhaearn a Threfor. Yr organyddes yn y ddau wasanaeth oedd Mrs Cassie Thomas, Min-y-Nant. Y darllenwyr yn y gwasanaethau oedd Miss Meira Williams, Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Dorothy Jones. Diolch o galon i bawb fu yn gwasanaethu dros yr Ŵyl.

Dymuna'r Curad a'r Wardeniaid ddiolch i bawb am addurno'r Eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau a ffrwythau a'r blodau hardd yn ystod yr Ŵyl.

NOSON GOFFI. Nos Lun, 11 Hydref cynhaliwyd Noson Goffi yn yr Ysgol Gymuned. Diolch am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion

tuag at y raffl. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth. Yr elw at Eglwys Sant Gabreal.

Enillwyr y Raffl Fawr oedd:

£50: Mrs Jean Williams, Pen Lôn, Saron, Bethel; £30: Ben Rowlands, Bon Marche, Llanberis; £20: Mrs Veronica Williams, Glanbogelyn, Cwm-y-glo; Tocyn petrol: Brenda (990715); Llain bwrdd: Siop Eryri, Caernarfon; Bocs nwyddau: Miss Owen, 9 Tan-y-buarth, Bethel; Bocs o lysiau: Sulwen Thomas, 1 Stad Eryri, Bethel; Hamper brecwast: Miss Myfanwy Roberts, Arfryn, Llanrug; Bocs o nwyddau: Mr Hanlon, 12 Turner Street, Llanberis; Bocs o lysiau: Sally, Bro Dawel, Cwm-y-glo; Bocs o nwyddau: Martin, d/o Gors Bach Bakery, Cwm-y-glo; Basged o salad: Mr Warrington, Boston House, Bethel; Gwin: Mrs Roberts, 49 Maes Barcer, Caernarfon; **Massage kit:** Cadi Siôn, Pen-y-bryn, Llanfaglan; Bocs nwyddau: Mrs Rhian Bardsley, 3 Stad Eryri, Bethel; Bocs ffrwythau: Mrs Iris Morris, 9 Victoria Terrace, Llanberis; Tin bisgedi: Castle Gift Shop, Llanberis; Bocs ffrwythau: Mrs Owen, 30 Maes Padarn, Llanberis; Bulbiau ffresia: Mrs Helen Morgan, Rheithordy, Llanberis; Bocs nwyddau: Siôn Arfon Hughes, 16 Dôl Afon, Cwm-y-glo; **Toiletries:** Ann Fleming, 63 Maes Padarn, Llanberis; Bocs ffrwythau: Mrs Prichard, 1 Tan-y-buarth, Bethel; Bocs nwyddau: Miss Myfanwy Roberts, Arfryn, Llanrug; Cynhwysion cacen Nadolig: Mandy Roughy, 17 Cefn Elan, Llanrug; Gwin: Mrs Parry, Roma, Ffordd Bethel, Caernarfon;

Oriawr a chamera: Mrs Roberts, 15 Tan-y-cae, Bethel; Shampŵa a stwff bath: Mr Gwynndaf Jones, Tŷ Gwyn, Bethel; Gwin: Iona, Siop Gemwaith, Caernarfon; Planhigyn: Mr Griffydd, 12 Llys-y-gwynt, Penisarwaun. Enillydd y cerdyn tim pêl-droed oedd y Parch Deiniol Morgan.

Enillydd y raffl ar y noson oedd Mr Dafydd Rowlands, Bethesda.

YR YSGOL GYMUNED. Mae gweithgareddau yr Urdd wedi cychwyn a byddwn yn cyfarfod bob yn ail ddydd Mercher ar ôl yr ysgol. Daeth Miss Jones o'r Gwasanaeth Tân draw i sôn am waith dynion tân ac roedd pawb gyda diddordeb mawr yn yr offer oedd ganddi i'w ddangos. Diolch hefyd i Mrs Gwenifer Roberts am gynnal sesiwn hwyliog o Bingo.

Enillwyr y Clwb Cant oedd (1) Hannah Wilson; (2) Gwenifer Roberts; (3) S.A. Winstanley. Mae nifer wedi ymuno â'r Clwb Cant o'r newydd ond mae rhifau'n parhau ar gael.

Daeth PC Neil Williams draw at Flwyddyn 3 a 4 i sôn am 'Dieithryn neu Ffrind - PAID A MYND'. Mwynhaodd y plant y gweithgareddau tra'n dysgu y wers bwysig yma.

Mae Rygbi'r Ddraig yn boblogaidd unwaith eto. Diolch i Mrs Oliver a Mrs Jen Roberts am gynnal y sesiynau ar ôl yr ysgol.

Ar 12 Hydref aeth y plant Meithrin ac Adran y Babanod draw i Fferm y Foel ar ymweliad. Ewch i gael golwg ar y wefan www.ysgolcwm-y-glo.org i weld lluniau ohonynt yn mwynhau eu hunain. Diolch i'r rhieni fu'n cynorthwyo ar y diwrnod.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED

Bu aelodau'r gangen ar ymweliad ag Ysbyty Ifan mewn cyfarfod a drefnwyd ar eu cyfer gan Gwenda Roberts nos Fercher. Medi 15fed. Yno yn hen adeilad Y Felin sy'n dyddio yn ôl i 1870/1880, sefydlodd chwe gwraig fferm leol wasanaethau ar gyfer dydd priodas dan yr enw 'Gwlwm' - gwasanaethau dwyieithog safonol. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn yng nghwmni Eirian, Ela, Eleri, Elin, Amanda a Hafwen yn cyflwyno eu meysydd arbenigol - cynlluniau cardiau, gwisgoedd, y gacen, cerddoriaeth, blodau ac anrhegion personol. Cafwyd gwledd ardderchog i gloi y noson.

O fis Hydref ymlaen bydd y gangen yn dychwelyd i'w cynefin i'r adeilad newydd yn y pentref sef Canolfan Crefftiau a Dylunio Eryri, i gynnal eu cyfarfodydd. wedi bod am gyfnod yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo.

DIOLCH Dymuna Mrs Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog ddiolch yn fawr i Eleri a Bethan a'r teulu oll am eu caredigrwydd a hefyd ei chyfoellion a'r cymdogion a fu yn help iddi tra bu yn Ysbyty Gwynedd a Llandudno. Diolch i staff a nyrsus y ddwy ysbyty am eu gofal ohoni.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU 2005

Dydd yn ofynnol i ni fel pentrefwyr dratáu i Gadi Ariannol tua at Eisteddfod Genedlaethol 2005 a gynhelir ym Mharc y Faenol. Fe'n hybysu'r fod targed y pentref yn £800. Gyflwynwyd symiau gan unigolion i'r grŵp eisoes.

I barhau i gyrchu at y targed, gwahoddi wrthyw un sy'n dymuno aton rhodd personol wneud hynny

i'n cynrychiolydd ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Mrs Pat Jones, Cae Coch cyn gynted a bo modd.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Y GYMDEITHAS Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor o'r Gymdeithas yn y Ffestri nos lau Hydref 7fed. Llywyddwyd y cyfarfod gan Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Gwyn Hefin Jones, Rhandir oedd yng ngofal y myfyrdod. Croesawyd y siaradwr gwadd sef Edward Morus Jones Llandegfan gan y llywydd. Treuliwyd noson gartrefol a hwyliog yn ei gwmni yn cyflwyno atgofion diddorol ynghyd a gwrando ar ambell gân. Diolchwyd yn gynnes i'r siaradwr gan y llywydd. Cyflwynwyd gair o ddiolch hefyd i swyddogion y gymdeithas am eu gwaith yn ystod y tymor. Cyfeiriwyd yn arbennig at yr ysgrifennydd, Gareth Llwyd Dafydd, Creigle, am ei waith dros y ddwy flynedd ddiweddar. Roedd yn ofidus ganddo na allai barhau â'r swydd oherwydd ei fwrriad ef a'r teulu i symud i fyw i Llyn maes o law. Ysgrifennydd newydd y gymdeithas yw John McBryde, Bryn Llwyd. Ar y terfyn mwynhawyd lluniaueth wedi ei baratoi gan Verna Jones, Meillionen ac Ifanwy Jones, Rhandir.

OEDFAON TACHWEDD

7 Parch Iorworth Jones Owen, Caernarfon am 5.30
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
14 Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 10.00
21 Parch Reuben Roberts, Bontnewydd am 5.30
28 Mr Richard Lloyd Jones, Bethel am 5.30

Dodrefn Da am Bris Discount
THE SALES HALL
Y NEUADD ARWERTHIANT
CWM-Y-GLO
Ffôn: 01286 879060

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.

Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds' Ffatrioedd am brisiau rhad dros ben.

Ar Agor: **LLUN - SADWRN 10.30 - 5 p.m.**

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

➤ Bysiau o 12 i 53 sedd

➤ Teithiau Lleol a Thramor

➤ Gwaith Contract

➤ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ

(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR

(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD

(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mwy rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Miss Corona 1951

gan Y Gwalch

Y Bennod Olaf

Mae'n rhaid i bob cerlyn ddychwelyd i'w ffau yn hwyr neu'n hwyrach a dyna a wnes innau yn y diwedd ar ôl trigo am gyfnod yn y gwrychoedd a'r caeau.

Roedd hi'n fis Medi erbyn hyn a'r sofieir yn heidio yng nghonglau'r caeau, ac ambell awel feinach na'i gilydd yn fy atgoffa fod y dyddiau gorau yn prysur ddod i ben.

Cefais fy syfrdanu, fodd bynnag pan gyrhaeddais fy annedd. 'Wnes-i erioed ddychmygu o'r blaen y buasai neb amgen na fy mam yn gweld fy eisiau. Yn lle hynny, derbyniwyd fi gan yr hen Yeoman fel yr Afradlon wedi dychwelyd o wlad y cibau. Cefais fy nhywys i'r gegin fawr at y tân i gael powlaid o gawl gan yr howsgipar. Ac yno clywais am y datblygiadau diweddaraf yn y fro. Roedd Marjeri wedi bod draw drocon yn holi amdanaf. Ac yr oedd gwraig Yncl Harri wedi dod rhyw fore ar frys, ac eisiau fy ngweld.

'Be mae dynas fel yna isio efo fi?' gofynnais. 'Does wybod ar y ddaear,' meddai'r Yeoman. 'Efallai ei bod hi awydd cael gwarad a'r hen fachgan. Mae angan tystion mewn achosion f'el yna, wyddost-ti.'

Dyma fi'n sodro fy mhowlen wag ar y bwrdd.

'Wel, mi dy rybuddiais di, ychwanegodd, 'am beidio cael dy ddal yn dwyn 'fala!'

'Fedrwn-i ddim cadw draw o'r tyddyn, fodd bynnag, petai ond o chwylfrydedd pur, a'r prynhawn hwnnw fe es draw yno. Roedd yr hogan yn golchi, ond gollyngodd bob dim i'm croesawu. Ond buan yr edwinodd y brwdfrydedd a throdd y sgwrs at bethau materol byd, ac fe gcfais fy syfrdanu unwaith eto pan ddywedodd ei bod am ymadael a'r fro. Ni chynigiodd unrhyw reswm am ei phenderfyniad. 'Wnes innau ddim holi.

Beth bynnag, roedd hi'n daer am imi aros i weld Heidi ar ôl yr ysgol, a dyna a wnes.

Wedi i'r fferch fach ddychwelyd, dyma ei mam a hithau yn taro ati i wneud teisen imi, i ddathlu fy nychweliad. ac yno bûm yn gloddesta a chacl fy mwytho fel Nawab Bophal, hyd nes y daeth yr hwyrddydd.

Ar ôl i Heidi fynd i'w gwely efo'i thedi, taflodd Marjeri ychwaneg a goed ar y tân ac estynnodd y gwin caruref. Bu'r ddau ohonom yn sgwrsio am oriau yn nghynhesrwydd y tân, y gwin yn ymlacio'n meddyliau a'n tafodau. Aeth yr amser

heibio fel petai'r byd wedi cyflymu ei dro. Roeddem wedi cyrraedd gwaelod y botel win ond roedd blas ar ein sgwrs, ac roedd gennym lawer i'w drafod.

'Estyn botel win arall o'r cwpwrdd,' meddai Marjeri.

Codais a mynd draw at y cwpwrdd derw ym mhen draw pella'r stafell. Wrth blygu i afael yn y botel win, gwelais rywbeth cyfarwydd yn disgleirio ar hambwrdd gwydr bychan. Anghofiais am y botel win.

'Ble gefaist-ti hon?' gofynnais, gan afael yn y froits fechan.

'Pam 'rwyf-ti'n gofyn?' meddai.

'Am mai fy un i ydi hi. O ble daeth hi?' meddwn gan droi i wynebu Marjeri.

'Dy un di. Amhosibl,' meddai Marjeri. 'Fe'i prynais yn Pershore os oes raid iti gael gwybod.'

'O ble bynnag y daeth hi, fy un i ydi hi - un fy mam,' ychwanegais yn bendant.

'O na,' ebychodd Marjeri. 'Ond sut y collaist-ti hi, os mai dy un di ydi hi?'

'Doeddwn-i ddim wedi disgwyl y cwestiwn, ond 'doeddwn-i ddim yn mynd i gyfaddef mai'r sipsiwn oedd wedi ei chipio chwaith. Roedd hi wedi fy rhybuddio rhagddynt mor aml. Dywedais na wyddwn-i ddim; aeth y ddadl o ddrwg i wach, a'r peth ncsaf roedd Heidi wedi deffro, ac fe redodd i'r stafell dan weiddi tair torth am geiniog, a rhwng popeth roedd hi'n amlwg erbyn hyn fod y noswaith yn deilchion. Gwnes innau yr unig beth a oedd yn weddill er mwyn cadw rhywfaint o'm hurddas. Dychwelais i'm hannedd yn y gadlas a deisyfais am gwmni Sinffi Cooper.

'Doedd yna fawr yn weddill o'r nos i gwsg nac effro. Eisteddais a dyfalais beth a wnawn. Sut yr adferwn fy eiddo. Ond pan ddaeth y bore, arbedwyd imi'r drafferth o bryderu mwy. Daeth Marjeri i guro yn ci rhwysg a'i rhawn.

'Rwy'n mynd i'r Gelli Gandryll,' meddai. 'Tyd efo fi inni gael diwrnod i gwisgo dod i ryw ddealltwriaeth.' A choeliwch neu beidio, ar ôl holl strach y noson cynt, mynd wnes-i. Doedd yna y ddim gwrthsafiad i swyn y ddynes.

Roedd yn hyfryd cael gwibio drwy'r wlad ar y fath ddiwrnod, ond nid oedd Marjeri yn meddwl fod f'arweddiad yn gweddu i'r Mercedes.

'Fe ddylai fod gen-ti dci,' meddai, 'ac mae'r hen gôt armi, yna yn gywilyddus.'

'Tyd, inni gael gweld beth sy'n y fan yma,' meddai wedyn

ar ôl inni gyrraedd y dref, gan fy nhywys i mewn i ryw siop ddillad anferth. Soniodd yr un ohonom am y froits fleur de lys.

Roedd dynion y siop yn rhedeg yma ac acw, yn cyrraedd a cholaeth i Marjeri fel 'tasai'r frenhines ei hun wedi cyrraedd, a finnau'n caniatáu iddynt fy nhrin fel dymi teiliwr, yn wasaidd fel hen fachgen wedi hen arfer cael pobl yn rhedeg iddo.

O'r diwedd dewiswyd y grysbas a'r tei, a dymuniad y ddynes oedd imi eu gwisgo yn y fan a'r lle. Roedd hi â'i bryd ar fynd â fi i ryw le arbennig i gael te, a chanfûm am unwaith yn fy oes sut deimlad ydi bod yng nghwmni un gyfoethog, ond byr fu hoedl y wefr. Pwy a ddaeth i'n hwynebau, o'r holl bobl yn y byd, ar gongl rhyw heol, ond Sinffi Cooper yn ei gwisg ffair a'i basged werthu ar ei chlun. Roedd ganddi'r mwyafrif o'i thylwyth i'w chanlyn hefyd, ac mewn munud roeddent wedi ein hamgylchynu.

Rhoddodd Sinffi ei dwylo ar ei hochr a'i llygaid ar dro a dechrau maingamu o'm cylch fel prynwr yr prisio anifail mewn ffair.

'Ho frawd,' meddai, 'rwyf ti'n ffein. Rhy ffein i gymryd sylw ohona' i heddiw.' A chyn imi allu dweud dim wrthi, roedd hi wedi gafael yn y tei, a dechrau fy nhywys o gwmpas y cylch fel march.

Y peth ncsaf, roedd Marjeri wedi rhoi sgwd iddi o'r neilltu a dyma Sinffi yn rhoi sgwd iddi hithau, ac wedyn dyma Marjeri yn rhoi celpan i Sinffi, a hithau'n rhoi un yn ei hól, ac yr oedd pawb ond fi yn annog yr ornest yn ei blaen.

Roeddwn-i wedi clywed y gosodiad, 'yn walltiau ei gilydd' drocon, ond dyma'r tro cyntaf imi weld y peth yn digwydd yn ymarferol. Roedd y ddwy erbyn hyn wedi mynd i ddechrau sgrechian hefyd fel cathod gwyllt.

Sylwais fod gwaed yn rhedeg i lawr wyneb Marjeri, a phenderfynais ei bod hi'n amser gwneud rhywbeth. Gafaelais yn ysgwyddau Sinffi a'i thynnu yn ei hól, ond yr oedd hi'n anarferol o gref. Cefais syniad sydyn.

'Sinffi,' meddwn i. 'Sinffi,' gwaeddais ar dop fy llais. 'Cofia am y ddwy seren. Cofia, Sinffi.'

Gollyngodd ei gafael ar wallt Marjeri. Ar hynny, pwy ymddangosodd o'r dorf ond plismon, ac ymhen dau funud doedd yna ddim hanes o'r un Sipsi ar y stryd yn y Gelli Gandryll. Doedd yno neb ond Marjeri a fi i ateb y cwestiynau.

Er mwyn hwylustod ac osgoi trafferthion, gadawyd y digwyddiad i fynd i dir angof fel un o drocon bywyd, ac euthum â Marjeri i siop

fferyllydd, ac oddi yno i gael ei the.

Roedd hi'n ymadael wedyn ymhen wythnos, yn ei hól, meddai hi, i Bromwicham, ond 'wn-i ddim faint o wirionedd oedd yn y gosodiad hwn.

Cefais fy neffro ryw fore gan swm corn yn canu yn y lôn, a phwy oedd yno ond hi a Heidi yng nghwmni rhyw ddyn hollol ddiarth imi. Daeth allan o'r car a throedio ar draws y gadlas. Roedd ganddi ryw gostiwml felfed las amdani. Fe'i cofiaf am byth.

'Mi faset-ti'n cysgu'n hwyr heddiw o bob diwrnod, yn baset?' meddai hi. Estynnodd ei llaw a gafael yn fy mraich yn dyner.

'Ta-ta, John,' meddai. 'Edrych ar ôl dy hun, yn gnei?' ac i ffrwdd â hi.

Yn ystod y diwrnodiau hynny, daeth cerbyd i gyrchu ei hychydig eiddo, Yncl Chris i 'mofyn ei ferlen a'i eifr, Yncl Harri i gyrchu'r Mercedes, ond 'welais-i mo'r plymar. Efallai ei fod o wedi mynd â'i beipiau efo fo yn barod!

A fi: bûm yn hiraethu'n ofnadwy ar ôl Marjeri. Beth bynnag arall oedd hi, roedd hi'n lliwgar a rhamantus. Byddwn yn gwisgo'r gôt a'r tei yn bur aml. Un diwrnod, pan stwffiais fy llaw i'r boced gesail, teimiais rywbeth miniog. Beth oedd o, medda' chi? Y froits fach fleur dy lys.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidr
Dinorwig. Ffôn: 870292

CLWB ORWIG. Mrs Theta Owen, Mynydd Llandegai, oedd y wraig wâdd yn y Clwb ar 23 Medi, pan roddodd arddangosfa ar sut i drefnu blodau, ac Alice Griffith oedd y wraig ffodus i ennill y trefniant hardd. Y llywydd oedd John Cantrell a rhoddwyd y te gan Margaret Faulkener ac Ann Lo. Cafwyd gwybodaeth am ginio pedwerydd pen-blwydd y Clwb y mis nesaf, a'r cinio Nadolig.

Bu rhagor o drafod y cynlluniau ar gyfer codi'r Gofeb i'r chwarelwyr. Cyflwynwyd blodau i Betty Lloyd Roberts ar achlysur ei phen-blwydd a £32 i Mrs Theta Owen i'w gyflwyno i'w nai a gafodd ddamwain gas. Enillwyd y raffi gan Alice Griffith, Nellie Wyn Jones, Morfudd Jones a Betty Bower a'r ffrwythau a'r llysiau, a gyflwynwyd gan berchnogion y Veg Van, gan Ann Lo a John Cantrell.

COFEB I'R CHWARELWYR. Fei ag y mae yn wybyddus i bawb erbyn hyn, y mae Clwb Orwig yn trefnu i godi Cofeb i'r Chwarelwyr ar y Sadwrn cyntaf yn Mai 2005 yn yr Allt Ddu. Gan fod hyn yn greu dipyn o gostau, buasai'r clwb yn falch o unrhyw rodd tuag at y costau. Os buasech yn hoffi cyfrannu a fydded mor garedig ag anfon eich rhoddion i Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n y Fawnog. Bydd y Clwb yn ddiolchgar iawn i chi.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Cyfarfod nos Fawrth y 19eg o Hydref yng Nghanolfan Penisa'rwaun.

Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Jones.

Croesawodd y Cadeirydd y Gynghoryddes newydd, sef Elspeth Mitcheson (Rhiwlas).

Cofnodion y 14eg o Fedi

Cywiriad i'r drafodaeth a Swyddogion Gwynedd - Tremeilian, Brynrefail a Bryntirion, Penisa'rwaun.

Materion o'r cofnodion

Cynhadledd Flynnyddol Un llais Cymru. Dywedodd Richard Ll. Jones ei fod yn siomedig a rhaglen y gynhadledd. Agenda hirfaith o faterion y gellid cael eu datrus gan bwyllgor gwaith ond dim lle i gynigion fel ag yng Nghynhadledd CCBTC.

Ymatebodd Len Jones, gan mai hon yw'r gynhadledd gyntaf, efallai bod y ffurf yn wahanol. Rhoddwyd cefnogaeth y Cyngor i Richard Jones a Len Jones i adweithio i hyn ar y diwrnod.

Swyddog Bro, Gwynedd

Cefnogwyd awgrym Len Jones i wahodd Mr Dafydd Einion Jones, y swyddog newydd, i'r cyfarfod nesaf. Dywedodd Len Jones hefyd bod Mr Garth Jones, Gallt y Foel, yn barod i dderbyn comisiwn i baratoi llyfryn hanes. Penderfynwyd ail sefydlu'r Grŵp Cymunedol i weithredu'r datblygiadau. Rhybuddiodd Huw P Hughes nad os llawer o obaith am gymorth ariannol. Dywedodd Elspeth Mitcheson y buasai'n fanteisiol cysylltu â Chyngor y Celfyddydau yn hyn o beth.

Tawelu trafnidiaeth

Cyflwynwyd canlyniadau Gwynedd i arolwg cyflymder yn Nhan y Coed, Penisa'rwaun. Penderfynwyd gofyn am ba gyfnod a pha amser o'r dydd y gwnaed yr arolwg.

Hump Rhiwlas byth wedi ei gywiro, ar ôl misoedd lawer o lythyru.

Eisteddfod genedlaethol

Darlennwyd ateb y Cynulliad y bydd grant o £360k at yr Eisteddfod cleni i'w gymharu â'r £300k arferol. Bydd hefyd £40,000 ychwanegol a bwriadir ddwyn y taliad nesaf o £87,500 ymlaen.

Dywedodd Richard Ll. Jones bod 88% o ofynion ardal Eryri wedi ei gyrraedd a 67% o ardal Llanddeiniolen. Soniodd Len Jones bod Llanddeiniolen wedi ei rhannu yn anghyfbwys ar gofnodion yr Eisteddfod. Addawodd Elspeth Mitcheson ymholi.

Eglurodd Pat Jones mai

gofyn am roddion yw penderfyniad Brynrefail. Rhoddion naill ai i Cae Coch neu i Swyddfa'r Eisteddfod.

Cyfeiriodd Len Jones at ymateb Deiniolen a Dinorwig i'r hysbyseb o gyfarfod, dim ond un neu ddwy ddaeth i gyfarfod y cynghorwyr. Dim cefnogaeth o ysgol Gwaun Gynfi.

Derbyniwyd ateb Alun Ffred Jones ei fod wedi nodi ein sylwadau i'r Cynulliad.

Y Comisiwn Ffiniau

Derbyniwyd eu hateb, hirwyntog a hunangyfiawn i'r gŵyn ynglŷn â'r ymchwiliad ym Mangor. Penderfynwyd rhoi rhyddid i Phyllis Ellis a'r Clerc ei ateb a gwneud hynny ag agwedd gref.

Y Cynulliad

Cyfeiriodd Richard Ll. Jones at y ffaith bod popeth yn digwydd yng Nghaerdydd gan gyfeirio at gyfarfodydd a gynhelir yno. Costau teithio a llety yn drwm ar y gogleddwyr o'u cymharu â'r hwylustod i'r deheuwyrr.

Biniau Baw Cŵn

Tri fydd ar gael i gymuned Llanddeiniolen, gofynnwyd am amryw ym mhob pentref. Penderfynwyd tynnu lleoliadau o het am y tro a phwyso ar Wynedd i osod y gweddill maes o law. Hefyd, gofyn i Wynedd sut y penderfynwyd ar dri. A yw Llanddeiniolen yn cael ei ystyried fel un uned yr un fath a chymunedau un pentref fel Llanrug, Llanberis a Phentir?

Blychau FFôn Cyhoeddus

Ateb Saesneg BT yn dweud na wneir dim am yn hir oherwydd y nifer anferth o ymatebion a dderbyniwyd, a chadarnhad na wneir i ffwrdd â'r un blwch heb ystyried ein sylwadau. Cyflwynodd Philip Jones erthygl o'r *Daily Post* yn cadarnhau hawliau veto Cyngorau lleol.

Swyddfa'r Post

Derbyniwyd eu hateb ynglŷn â'u rhwydwaith gyfrifadurol. Blwch postio, Y Waun, Penisa'rwaun. Wedi ei ail osod dros y ffordd, y rheswm oedd ei fod ar dir preifat.

Ffyrdd

Derbyniwyd cynlluniau glanhau'r ardal oddi wrth Steffan Jones a'i addewid i glirio'r silt ger Gors Bach a'r darnau metel dros y ffordd i Snowdon View.

Gosodir arwydd ym mhen uchaf Lôn y Fron i atal cerbydau llydan.

Dim cyllid ar hyn o bryd i osod palmant o Dremeilian at y bont newydd, Brynrefail.

Gorchymyn Gwynedd y bydd

ffordd Pont Ty'n Rarodd, Deiniolen ynghau am gyfnod heb fod yn fwy na blwyddyn o'r llog o Hydref. Gobeithir cwblhau'r gwaith ac ailagor y ffordd o fewn tua 10 wythnos.

Cyfeiriodd Phyllis Ellis at y gwaith torri gwair ar ochr y ffyrdd - cymaint taclusach wedi ei dorri i gyd yn hytrach na'r drefn arferol.

Trethi Cyngor

Cyflwynwyd eglurhad y Cynulliad ar y ffordd y cyrhaeddwyd at y bandiau newydd.

Dywedodd Len Jones bod anghysondeb yn yr asesiadau, rhai tai ddau fand yn uwch na rhai cyffelyb yn yr un ardal. Bwriada'r Cynghorwyr Sir gyhoeddi yn *Eco'r Wyddfa* i bawb sydd ar fand uwch gysylltu â hwy.

Gohebiaethau Eraill

Copi o gais Carter Vincent Jones Davis am drwydded diodydd meddwol ar ran Caban, Yr hen Ysgol, Brynrefail. Roedd y cais a'u llythyr yn uniaith Saesneg.

Cymdeithas Clercod

Cynghorau Lleol Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc fynychu cu cynhadledd yn y Dre Newydd ar y 18ed o Dachwedd.

Mynwentydd

Cyflwynwyd holiadur Gwynedd yn gofyn am restr o fynwentydd y gymuned sydd o dan reolaeth Eglwys neu Gapel. Danfonir y rhestr isod:

Eglwys Santes Helen, Penisa'rwaun, Eglwys Llanddeiniolen, Capel Bethel, Capel Ebenezer, Deiniolen.

Cynnig Gefeillio a St Jacet sur Mer, Llydaw

Trafodwyd llythyr Adran y Prif Weithredwr Gwynedd gan amlygu y gallai hyn olygu costau uchel. Penderfynwyd gofyn am fwy o fanylion.

Canolfan Dryll, Rhiwen, Deiniolen

Amlygodd Dafydd Morris y ffaith bod llawer o geir yn parcio ar ochr y ffordd yn ddyddiol â'r peryglon i gerddwyr. Penderfynwyd gofyn i Adran Gynllunio Gwynedd a oes gorsodach cynllunio ar y ganolfan i ddarparu maes parcio iawn. Dywedodd hefyd bod llawer o bobl yn aros yn y canolfannau ar Gallt y Foel a'u ceir yn llenwi ochr y ffordd.

Cynllunio

Cyfeiriodd Len Jones at newidiadau gweinyddol yn y Cyngor Sir - bydd swyddogion cynllunio yn penderfynu ar geisiadau yn hytrach na'r aelodau yn y siambr. Rhodd hyn fwy o gyfrifoldeb ar Cynghorwyr Cymuned. Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Estyniad: 18, Bryn Tirion,

Penisa'rwaun.

Modurdy: Garth Bach, Y Felinheli.

Estyniad: 2, Penrhôs, Wylfa, Seion.

Estyniad: 10, Y Ddôl, Bethel.

Estyniad: 6, Caeau Gleision, Rhiwlas.

Estyniad: 12, Stryd Uchaf, Rhiwlas.

Estyniad: Derlwyn, Clwt y Bont.

Estyniad: Cerrig Llwydion, Deiniolen.

Estyniad: 3, Bro helen, Clwt y Bont.

Porth newydd: Tan y Bryn, Clwt y Bont,

Modurdy: Cerrig Gwynion, Waun, Penisa'rwaun.

Adeilad Rheoli: Gorsaf Ddŵr, Bethel.

Adnewyddu modurdy: llain o dir cyfagos i Tŷ Newydd, Bethel.

Adeiladu Tŷ - Hen Siop Cigydd ger ysgol Bethel.

Cyflwynwyd Côd Ymarfer Cynllunio Gwynedd.

Llwybrau

Adroddodd Huw P. Hughes bod angen draenio dŵr ar lwybr Tre Gôf i Tan Fynwent, Bethel - llythyr i Wynedd.

Dywedodd Len Jones bod angen torri mieri ym mhen uchaf llwybr 107, dros y ffordd i orsaf Beran. Hefyd bod angen draenio llwybr 43 Cefn y Waun/Rhwng y Ddwryd.

Materion ychwanegol

Gwaith tai Caradog.

Yn ôl Len Jones mae Clayton yn gadael byrddau scaffold ar y llwybr ger Corlan y Bont.

Marchlyn Mawr.

Soniodd Philip Jones am yr holl (deithwyr?) faniau, carafannau a.y.y.b. ym maes parcio Marchlyn Mawr. Penderfynwyd cwyno am hyn i Adran Gyfreithiol Gwynedd a gofyn unwaith yn rhagor beth yw'r sefyllfa ynglŷn â pherchnogaeth y lleoliad.

Yr Heddlu

Adroddodd Len Jones bod yr Heddwys cymunedol wedi mynd. Cyfeiriwyd at holl addewidion yr Arolygydd Simon Davies a'r Prif Uwch Arolygydd Gareth Pritchard ar ôl y penodiad. Penderfynwyd ysgrifennu ynglŷn â hyn gan bwysu ar y ffaith bod ardaloedd gwledig yn dioddef yng nghysgod y trefi, i Eira Hughes, Adran Trosedd ac Anrhefn, y Prif Gwnstabl Brunstrom a'r Arolygydd Simon Davies.

Cyfeiriodd y clerc at amryw o faterion y Cynulliad na fu amser i'w trafod hyd yn hyn. Ceisir paratoi crynodeb ohonynt erbyn cyfarfod Tachwedd (er mor hirwyntog ydynt). Y dogsennau yw:

Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol. (neu Llwywodraeth yn ôl y Cynulliad!)

Rôl a Swyddogachau Cynghorau Cymuned - Ymateb i'r rôl honno.

Gweithredu Strwythurau Rheoli Gwleidyddol Newydd o fewn Llywodraeth Leol.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 2il o Dachwedd.

O'r Cyngor

Dros y misoedd diwethaf y pwnc mwyaf dadleuol yn genedlaethol yw ail fandio'r trethi eiddo. Yn ôl pob golwg mae nifer fawr o eiddo yn yr etholaeth wedi codi un ai un neu ddau fand, yn golygu y bydd dipyn mwy i'w dalu.

Yn ôl y cyfarwyddyd rydym wedi ei derbyn ni fydd yn bosib apelio yn erbyn y codiadau tan Ebrill 2005, braidd yn hwyr pan fydd y biliau wedi eu derbyn. Os aiff pethau cyn belled â hyn, yna fy mwriad yw cynnal cymorthfeydd yn y neuadd pan fydd y ffurfleni priodol ar gael. Yn y cyfamser buaswn yn ddiolchgar dros ben os buasai'n bosib i rai sydd â'u bandiau wedi newid gysylltu â mi, gan fod ymgyrch ar waith i geisio gwrthdroi'r penderfyniad gwallgof yma.

Fel mae trigolion Saron, Bro Rhos a rhan o Fro Eglwys yn gyfarwydd gyda'r ceisiadau i gael rhyw drefn ar arafu traffig ger eu cartrefi, araf iawn a siomedig iawn yw ymateb y Cyngor wedi bod. Pam mae'n rhaid rhedeg ar ôl swyddogion i'w cael i weithredu – mae y tu hwnt imi, ond ar ôl misoedd o ffonio a chyfarfodydd dyma beth sydd am gael ci wncud?

1. Bro Rhos, ble mae'r llwybr troed yn dod allan o Fro Eglwys: 'Mae'r ardal ger y llwybrau wedi ei hasesu ar sail cyflymdra eisioes, ac nid oes tystiolaeth bod y cyflymdra yn uchel.' Er hyn mae'r Adran Prifffyrdd am gyflwyno ardal lliw coch ar y ffordd a rheiliau diogelwch ar geg y llwybr. Nid tawelyddion traffig na man croesi swyddogol fydd yr ardaloedd yma ond mesur i godi amlygrwydd.

2. Ffordd ger y Neuadd Goffa: 'Mae'r ardal yma hefyd wedi ei hasesu ar gyfer cyflymdra ac nid oedd tystiolaeth yma chwaith.' Mae'r adran eto am gyflwyno un mesur fel yn pwynt 1 i godi amlygrwydd.

3. B4366 gyferbyn â'r Ysgol: Gan fod gweledd yn broblem oherwydd parcio ar y gyffordd i rai sy'n dod allan o gefn Bro Rhos i'r B4366, dros y ffordd i'r ysgol, bydd llinellau melyn yn cael eu gosod ar y rhan yma o'r ffordd. Bydd y drefn statudol i gyflawni'r gwaith yma yn cymryd oddeutu 6 mis.

4. Mae nifer wedi ymholi am y posibilrwydd o gael arwyddion i arddangos enwau strydoedd yn ardal Saron o'r pentref, a'r hen enwau ar hynny, sef Stryd Bellaf, Stryd Ganol a Stryd

Bach. Mae'r awgrymiadau yma wedi eu derbyn a bydd yr arwyddion yn cael eu gosod yn ystod y mis nesaf. Rwy'n disgwyl ateb ar arwydd newydd i Stad y Rhos. Os oes unrhyw le arall angen arwyddion enwau, yna gadewch imi wybod.

5. Mae cryn anfodlonrwydd yn yr ardal ynglŷn â'r traffig aruthrol sy'n defnyddio'r ffordd o gyffordd ger y Gors Bach at Gelli Gyffwrdd. Dangos poblogrwydd ysgubol yr atyniad mae hyn, a da yw hynny, ond ar y llaw arall pan mae datblygiadau o'r fath y cael eu caniatáu, mae'n rhaid i'r rhai sy'n argymhell caniatáu gymryd i ystyriaeth anghenion lleol. Yn yr achos yma, mae'n amhosib defnyddio'r ffordd yma am wythnosau ar y tro.

Rwyf wedi trafod y mater ar nifer o achlysuron gyda'r Cyngor heb lawer o symud ymlaen, ond diolch i'r drefn mae unigolyn wedi llogi cyfrifydd traffig ar liwt ei hun. Mae'n demtasiwn i ofyn i chwi ddyfalu faint o gerbydau ddefnyddiodd y ffordd yma o ddechrau Mehefin i ddechrau Medi eleni, ond mi fuasai'n anodd dychmygu'r fath symudiadau. Y rhif oedd 59,024 – ac ar ffordd ddi-ddosbarth, un trac. Ar ôl derbyn y wybodaeth syfyrdanol yma, rwy'n disgwyl dyddiad i ymweld â'r ffordd

gyda swyddogion o'r Adran Prifffyrdd, i drafod gwelliannau – rwy'n wir obeithio.

6. Dal i ddisgwyl atebion ar beth a pha bryd bydd gwaith yn cael eu wneud i leddfu'r problemau dŵr (gwteri newydd a dad-flocio) ar wahanol llecynnau oddi fewn i'r ardal.

7. Mae grant o gynllun Cist Gwynedd, sef un o gronfeydd Cyngor Gwynedd, wedi ei ganiatáu at uwchraddio'r Neuadd. Mae'r gwresogydd, ffenestri a drysau newydd yn barod wedi eu gosod ac mae gwaith ar y to i'w gario allan at ddechrau Tachwedd. Swm y grant oedd £3,900 at waith o dros £5,000.

Tra ar y pwynt o arian, mae mwy o newyddion ardderchog, sef fod cais Cyngor Gwynedd i Gronfa Amcan 1 wedi bod yn llwyddianus. Felly bydd cynllun Cronfa Wledig yn cael ei lansio cyn bo hir. Bydd y gronfa yma yn ei gwneud yn bosib i ardaloedd sydd ddim oddi mewn i ardaloedd adnewyddu, allu symud ymlaen gyda chynlluniau i hybu gweithgareddau sy'n hybu economi a chynlluniau cymdeithasol. Pan fydd mwy o wybodaeth ar gael byddaf yn cysylltu â sefydliadau'r fro.

Huw Price Hughes
Plaid Cymru
Etholaeth Bethel.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

www.s4c.co.uk

DWY IAITH, TRI THEULU, DEUDDEG MIS...

GOLWG NEWYDD AR BWNC TRAFOD MAWR CYMRU HEDDIW

Croeso i
Gymru
Welcome to Wales

GROESO I CYMRU

9.00PM


YN DECHRAU NOS SUL

TACHWEDD 28

GYDA GYDAID ISDEITLAU CYMRAEG A SAESNEG

S4C

CROESAIR TACHWEDD



1 ar draws ydi pob ateb sydd heb gliw iddo.

Ar Draws:

- 11 Dim ond un sir anrhefnus, ond mac'n ddigon i achosi tymer ddrwg! (5)
- 12 Aelod o'r côr meibion? (5)
- 13 Ffurf ar rediad berf i fynegi gwahanol adegau (5)
- 14 Lllysieuyn peraroglus a ddefnyddir i roi blas ar fwyd (4)
- 15 Cyfaredd nwys yn deilchion? (4)
- 17 Rhan glân y papur newydd (3)
- 18 Tir meddal, gwlyb (4)
- 20 Gwawdio (5)
- 24 Mynd ar siwrnai (6)
- 27 Esbonio (6)
- 28 Mae Llew yn dychwelyd yn y gawod ddi-ddiwedd i gael iachâd! (5)
- 32 Peth gwlyb sy'n blasu'r bwyd! (4)
- 34 Ehangder mawr o ddŵr hallt ... (3)
- 37 ... yn achosi dagrau ... (4)
- 38 ... i'r un sy'n cario bag y golffiwr? (4)
- 41 Dweud blêr yn 8 i lawr (5)
- 43 Y duedd yn y gymdeithas genedlaethol yw ... (5)
- 44 ymgrymu gerbron (5)
- 45 Gofalu am blant neu gleifion (6)
- 46 Ystlys - y dde neu'r chwith (3)

I Lawr:

- 1 Canol mis yn y post, a fi'n dychwelyd, 'rwyn siŵr! (7)
- 2 Gwrthod gweithio oherwydd anghydfod (6)
- 3 Amser byr i'r ysbeiliwr daflu codwm? ... (4)
- 5 a dyma ymladdfa arall ... (6)
- 7 ... dros llyn o gotwm? (4)
- 8 Tywyllwch (3)
- 9 Chwe troedfedd yn y 34 ar draws (5)
- 10 Gwynto (6)
- 12 Un sy'n perthyn i wlad y 12 ar draws? (5)
- 18 Y cnafon!!! (7)
- 19 Seibiant byr o'r bywyd hocnus (3)
- 21 Yn llai o bwys ... (6)
- 22 ... ond yn dlws gwerthfawr (3)
- 23 Ystatut lywodraethol mewn practis! (3)
- 25 Cartref y carcharor ... (3)
- 29 ... â choesau cam? (6)
- 30 Bwriad neu nod (5)
- 31 Bonheddwyr o'r ail reng yw seiri lli' anwadal ... (7)
- 35 ac oeraidd (6)
- 39 Bygythiwr (4)
- 40 Y dref ble mae'r afon yn arllwys o'r llyn (4)
- 42 Hen dderwen (3)


**Cefnogwch
ein Hysbysebwy**

Gair bach cyn rhestru'r enwau, ynglŷn â'r ateb i 30 ar draws. Gan mai '2 efallai' oedd y cliw, mae'n rhaid derbyn 'ail' fel ateb cywir yn ogystal â 'rhif', sef y gair yr oedd gen i mewn meddwl.

Derbyniais atebion i groesair mis Hydref gan Olwen Jones, Bethel; Nansi Davies, Rhuthun; N. Hughes, Cwmyglo; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Gwen Griffith, Deiniolen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Gareth Oliver, Tregarth; Megan Morris ac Alice M. Griffith, Dinorwig; Jennie Williams, Clynnog; Eluned Jones a D. B. Williams, Trefor; Olwen Owen, Nan Owen, Moreen Lennon ac A. Hughes, Llanberis; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Nant Roberts, Llanrug; Liz Roberts, Bangor; Alvona Jones, Prestatyn a dau yn ddienw!

Alvona Jones, 109 Ffordd Gronant, Prestatyn, LL19 9HP ydi enillydd y mis. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Tachwedd, gyrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 22 Tachwedd.



**Peidiwch â gori
ar stori
Anfonwch hi i'r Eco**

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

STEPHEN JONES

Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

**(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976**

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol



LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

CHWARAEON

REALAETH

Yn ystod yr wythnosau diwethaf gwelais dair gêm dan 11 yn y cylch. Cefais fy mhlesio ar sawl lefel. I ddechrau bwriad y timau i basio'r bêl, ac ambell enghraifft o symud celfydd oddi ar y bêl. Gan nad oes camsefyll, a gellir pasio yn ôl i'r gôl-geidwad mae'r gêm yn llyso. Yn y gemau a welais i, rhaid canmol y rheolwyr am yr agwedd bositif, a'r elfen o 'ganmol'. Roedd y plant yn ymateb yn gadarnhaol i hyn.

Yn un o'r gemau roedd un o 'sgowtiad' amlwg y Gogledd yn gwylio'r gêm. Yno yn gwylio ei nai yn chwarae roedd o, ond yn amlwg roedd sgiliau un o'r chwaraewyr ar y cae wedi denu ei sylw.

Y mae'r chwaraewr yma eisioes yn aelod o un o 'academis' lleol. Gan fy mod yn adnabod y sgowt yn o dda, manteisiais ar y cyfle yw holi beth mae sgowt yn chwilio amdano. Yr hyn oedd wddi ei ddenu yn y 'bychan' oedd ei naturioldeb, dawn i drafod y bêl, creu lle, ond er ei ddawn hefyd yn rhan o'r tîm, a'r gallu i sgorio goliau. Yn y gêm hon sgoriodd dair gôl, un drwy godi'r bêl dros y gôl-geidwad, tipyn o gamp ar gae

ANRHEG NADOLIG

Ychydig fisocdd yn ôl cyfeiriais at yr elusen Gôl, sy'n rhannu danteithion o fyd pêl-droed i blant difrcintidig yn y gwledydd y bydd tîm pêl-droed Cymru yn ymweld â nhw. Mae'r ysgol acw wedi cofnodi Gôl fel un o'r elusennau y bydd y disgyblion yn ei gcfnogi eleni.

Os oes unrhyw dîm neu Ysgol ym mro'r Eco eisiau cyfrannu peli, hen grysau etc., gellwch gysylltu â mi.

ANGEN TOCYN

Diddorol oedd sylwi ar bolisi Undeb Rygbi Cymru parthed dosbarthu tocynnau ar gyfer gemau rhyngwladol yr Hydref. Ni ellir prynu tocyn ar gyfer y gemau yn erbyn y mawrion - Seland Newydd a De'r Affrig, heb brynu tocyn i'r gemau yn erbyn Romania a Siapan. Fel yr esboniodd cefnogwr o'r gorllewin, costus iawn fydd teithio i Gaerdydd ar gyfer pedair gêm. Onid yw y 'Mileniwm Stadiwm ffactor', yn dechrau chwythu'i blwch erbyn hyn. Oni fuasai cefnogwyr yn hoffi gweld cin timau cenedlaethol yn ennill mwy o gemau. Y mae'r canoli yma yng Nghaerdydd - fy hen gwyn, ffobia, modd rhai - yn golygu fod llai o'r gwir gefnogwyr yn mynychu'r gemau. Gyda llaw, a thim pel-droed Cymru angen ennill gemau, oni ddylid trosglwyddo rhai o'r gemau i awyrgylech gwir gefnogol y Cae Rho, ynicu a ydy arian yn dwysieach na phwyntiau?

mwdlyd a chyda 'goliau bach'.

Ar ddiwedd y gêm clywais ef yn dweud wrth fam y chwaraewyr, 'Bydd rhai yn edrych ar hwn yn y dyfodol.' Roedd fy nghlustiau yn llwyr agored - yma ar ddechrau sgŵp go iawn efallai! Ond yna'r frawddeg nesaf. 'Mae fy nghlwb i newydd dalu £1miliwn am chwaraewr 16 oed o'r Eidal.' Dyma'r realaeth erbyn hyn. Oes prynu y 'chwaraewr parod' yw hi i'r prif glybiau erbyn hyn, nid cyfnod y meithrin. Y mae'n rhy gostus i nifer o glybiau gadw chwaraewr ieuanc ar y llyfrau am nifer o flynyddoedd heb wybod beth fydd diwedd y daith.

Mewn syndod gwrandewais faint oedd rhai o'r clybiau llai yn gofyn mewn 'compo' am rhai o'u hieuenctid os oedd un o'r clybiau mawr yn dod 'i mewn amdanynt'. Mae trosglwyddiad yn cadw'r banc yn hapus.

Diddorol sylwi yn y gêm fawr ddiweddar rhwng Man.Utd. ac Arsenal cyn lleied o'r chwaraewyr oedd yn gymwys i gynhyrchio un o'r gwledydd cartref. Yna'r chwaraewr ieuanc dawnus ar y mae. Tramorwyr bron iawn i gyd, ac wedi eu prynu am filiynau.

Onid yw hi'n eglur bellach na fydd y timau mawr yn dod i'n hardaloedd i chwilio am chwaraewyr y dyfodol. Onid gwell fydd gweld chwaraewr lleol yn cael ei feithrin i fod yn nhim cyntaf Wrecsam, Bangor, Caernarfon, neu Borthmadog yn hytrach nag ex...trialist mewn tîm mewn cynghrair leol?

TÎM 'ARDAL' LLEOL

Ie, dyna'r sefyllfa ryfedd sy'n bodoli i dimau pêl-droed -17 bro'r Eco.

Mae dau dîm ar hyn o bryd, Bethel a Llanberis. Mae sefydlu'r tîm ym Methel yn bwysig, gan ei fod yn llenwi'r bwlch bwysig rhwng y timau ieuencid a'r tîm hyn. Fel timau eraill o'r oedran yma ar y tir mawr - Penrhos a Bontnewydd - yng nghyngrair Môn maent wedi ymaelodi.

Mewn ymateb i ymholiad hogiau'r pentref, penderfynodd Maldwyn Hughes wthio'r cwch i'r dŵr. Dim ond 6 oedd yn yr ymarferiadau cyntaf ym mis Awst, ond erbyn hyn, wedi apêl - gan gynnwys colofn yr Eco - mae rhyw 18 yn ymarfer ym Mrynrefail ar nos Fawrth. Daw'r bechgyn o Fethel, Llanrug, Deiniolen, Felinheli, Mynydd Llandegai a Phen-y-groes. Tipyn o ardal, ond heb gynghrair i'r oedran yma yng 'nghadarnle'r gêm', yma yn Arfon dyma yw'r patrwm i fod.

Bu sefydlu'r tîm yn gaffaeliad i glwb Bethel, gan fod gofynion Cynghrair Môn yn mynnu bod 'cwt newid' ar y cae. Daeth C.P. Caernarfon i'r adwy gan gyfrannu Portakabin addas. Hoffai pwyllgor y tîm ddiolch iddynt, yn ogystal â Steven Griffiths (Bysus Hefin) am ei drosglwyddo i Fethel. Caed coed i'r to gan gwmni Huws Gray, a felt gan Thomas Roofing. Diolch arbennig i Huw 'Saer' Roberts o Fethel am ei waith diflino yn cwblhau'r gwaith. Cyfrannodd clwb Bethel set o grysau.

Chwaraewyd tair gêm hyd yn hyn gyda dwy gêm yn gyfartal a cholli un - gyda 9 gôl wddi cu sgorio ac ildio 12. Tîm yn hoffi ymosod yn amlwg. Byddant yn falch o'r ddau bwynt - 3-3 yn erbyn Llangefni a 5-5 yng Nghaergybi, dau dim sefydlog ers sawl tymor.

Collwyd o 4-1 yn erbyn un o'r

ffefrynau, sef Cemaes. Mae'r bechgyn yn edrych ymlaen i ddwy gîm gartref - Penrhos a Phorthaethwy.

I'r dwyrain teithia Llanberis i gystadlu yng Nghyngrair Aberconwy. Dim ond 6 tîm sy'n aelodau, dau yn Llanfairfechan, dau yn Llandudno, Llanrwst a Llanberis. A fydd bois y wlad yn trechu hogia'r dre tybed? Un gêm a chwaraewyd hyd yn hyn, pan gurodd Llanberis un o dimau Llanfairfechan o 6-1, gyda Dylan Edwards o Lanrug yn rhwydo bedair gwaith. Diolch i Andrew Wakeham ac Aeron am eu dyfalbarhad gyda'r hogia, a gobeithio y byddant hwy a Maldwyn yn cynhyrchu chwaraewyr i'n timau lleol ar gyfer y dyfodol.

BYD Y DARTIAU

Sylw sydyn i dimau'r merched y mis hwn. Cafodd tîm y Bull yn Neiniolen sylw 'cenedlaethol' y llynedd, ac mae tipyn o frwydr yn datblygu yn y 'topia' ar frig ail adran cynghrair Caernarfon. Wedi 6 gêm, trydydd yw'r Bull, gyda'r tîm drws nesaf Y Wellington ddau bwynt yn well, yn yr ail safle. Pa dîm fydd yn gwynebu eu 'Waterloo' diwedd y tymor tybed?

Yn rhyfeddol, draw yn Lanrug mae'r un sefyllfa yn bodoli yn yr adran gyntaf. Mae'r Glyntwrog a thîm 'B' Penbont yn gydradd ail gyda 13 pwynt. Tipyn o edrych ymlaen yn Neiniolen a Llanrug am ddwy gêm ddarbi gystadluol iawn.

Yn y brif adran i'r dynion mae'r Bull unwaith eto yn 'taflu'n' dda, ond mae'r Bedol yn ei chael hi'n anodd addasu i'r naid o'r ail i'r brif adran. Bydd dwy gêm gyfartal yn ddiweddar yn siŵr o godi calonnau.

NODDI RYGBI IAU CAERNARFON



Mac gwcsty'r Seiont Manor, Pontrug, yn noddi y tîm cyntaf, y tîm ieuencid a thîm dan 16 oed Clwb Rygbi Caernarfon eleni, gan gynnwys darparu crysau newydd.

Ar lefel o dan 16 oed mae'r tîm wedi cael dechreuad da i'r tymor. Ar ôl colli i Ddinbych yn gêm gyntaf y tymor maent wedi ennill dwy gystadlaeth 10-bob-ochr. Yn Nolgellau curodd y tîm y

pedwar clwb arall. Wedyn yn Sialens Chwaraeon Gogledd Cymru yn Mona, Ynys Môn, curodd y tîm bob gêm unwaith eto i wynebu Bethesda yn y rownd derfynol, gan ennill o 5 cais i 1.

Y diwrnod wedyn roedd Bethesda yn ymwelwyr i'r Morfa, Caernarfon a'r tîm cartref yn ennill o 69 pwynt i ddim, gyda un o hogia Bro'r Eco, Daniel

Roberts, yn sgorio dau gais a throsi un. Disgyblion craill o Ysgol Brynrefail yn y tîm ifanc addawol yw Aled Roberts, Carwyn George, Berwyn Jones, Ifor Jams, Mark Bentham a Siôn Owen. Yn ogystal mae dau o hyfforddwyr y tîm yn byw ym Mhontrug - Gerry Downing yn Tan y Felin a Dafydd Roberts, Aden.